Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adroddiad blynyddol y flwyddyn gyntaf 2022-23 gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer 2023-24

**llyw.cymru**

# Cynnwys


**Datganiad cenhadaeth** **3**

**Adolygiad o'r flwyddyn** **9**

**Llwyddiannau rhanbarthol ym mlwyddyn un yn ôl modelau gofal** **12**

Gofal yn y gymuned – atal a chydgysylltu cymunedol 13

Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at y cartref 18

Hybu iechyd a llesiant emosiynol da 21

Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal 24

Adref o'r ysbyty 28

Atebion seiliedig ar lety 33

**Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Dysgu a Gwerthuso** **36**

Cymunedau Ymarfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol 36

Defnyddio Theori Newid i lywio prosesau adrodd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol 39

Gwerthusiad cenedlaethol 40

**Blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn 2 (2023-24)** **41**

**Atodiad 1: Fframwaith Canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol** **42**



OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49338, ISBN digidol 978-1-83577-861-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

**Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers lansio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a fydd yn para pum mlynedd. Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn tynnu sylw at flaenoriaethau a chynlluniau ar gyfer 2023-24.**

Mae Llywodraeth Cymru am i bobl allu byw eu bywydau gorau mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau eu hunain.

Mae'n hanfodol i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol allu gweithio gyda'i gilydd fel 'system gyfan' gan fod mwy o bobl yn byw'n hirach. Mae'r bobl hynny weithiau'n rheoli amryfal gyflyrau iechyd ac mae ganddynt anghenion gofal a chymorth amrywiol. Rydym wedi ymrwymo i ysgogi newid a thrawsnewid, ac er mwyn galluogi hyn, mae angen rhannu gwybodaeth am arferion gorau ledled Cymru.

Dan reolaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, buddsoddwyd bron i £145 miliwn drwy gyfrwng y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol dros y deuddeg mis diwethaf.

Er gwaethaf y pwysau sylweddol a roddwyd ar y system dros y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â'r heriau ariannol cynyddol, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi parhau i adeiladu ar sylfeini 'Cymru Iachach' a chreu amgylchedd lle gall partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol groesawu a darparu newidiadau trawsnewidiol mewn gwasanaethau.

Dymunwn ddiolch i holl staff y sector iechyd a gofal cymdeithasol am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth iddynt barhau i wasanaethu anghenion pobl Cymru mewn amgylchiadau heriol.

I'n Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae'r flwyddyn gyntaf wedi bod yn flwyddyn bontio, wrth inni gyfuno ffrydiau cyllido fel bod adnoddau'n cydweddu'n well, er mwyn inni allu creu'r effaith fwyaf bosibl a lleihau'r baich gweinyddol.

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ein helpu hefyd i gyflawni blaenoriaethau allweddol eraill, gan gynnwys fframwaith NYTH, gan weithredu ar sail system gyfan mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant i fabanod, plant a phobl ifanc.

Bydd buddsoddiad y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol dros y pedair blynedd sy'n weddill yn cynorthwyo'n fawr i ategu ein huchelgeisiau, sef symud ymhellach ac ynghynt tuag at system gofal integredig yn y gymuned i Gymru.

Ymhellach, disgwylir y bydd o leiaf 20% o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cael ei fuddsoddi yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng sefydliadau'r sector gwerth cymdeithasol, gan helpu i ategu ein hagenda ar ailgydbwyso'r farchnad gofal a chymorth.

Rydym yn cydnabod bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u partneriaid wedi bod yn gweithio i fanteisio i'r eithaf ar effaith y Gronfa ar adeg pan fo pwysau ehangach ar y system ac effeithiau adfer ar ôl COVID-19 wedi effeithio'n fawr ar gapasiti ac adnoddau partneriaid statudol.

Yn y cyd-destun hwn, ac ar gais ein partneriaid, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu gofynion y Gronfa mewn perthynas â thapro ac arian cyfatebol.

Ym mis Rhagfyr 2022, cytunwyd y byddem yn llacio'r trefniadau hyn yn y tymor byr, heb golli golwg ar ddyheadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y tymor hwy i sefydlu gwasanaethau prif ffrwd cynaliadwy.

Mae dysgu a gwella yn rhan bwysig o'n hethos ar gyfer datblygu iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y flwyddyn gyntaf, penodwyd Prifysgol De Cymru, ar y cyd ag Old Bell 3 a phrifysgolion Bangor ac Abertawe, i werthuso ein Cronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Yn ei blwyddyn gyntaf, mae'n amlwg bod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi dechrau hybu gwir ddull partneriaeth o ran buddsoddi mewn gwasanaethau integredig ar gyfer yr hirdymor.

Byddwn yn parhau i ddwyn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyfrif am gyflawni cynlluniau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, gan sicrhau y gellir dangos yn glir sut maent yn manteisio i'r eithaf ar y gronfa i sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwech o fodelau gofal cenedlaethol newydd.

Edrychwn ymlaen at weld rhagor o gynnydd yn yr ail flwyddyn wrth inni weithio gyda'n gilydd i wella gofal integredig er mwyn i bobl Cymru, waeth lle maen nhw'n byw, allu cael gwasanaeth effeithiol a di-dor.



**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd
a Gwasanaethau Cymdeithasol



**Julie Morgan AS**
Y Dirprwy Weinidog
Gwasanaethau Cymdeithasol



**Lynne Neagle AS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd
Meddwl a Llesiant

# Datganiad Cenhadaeth

Erbyn i'r gronfa ddod i ben ymhen pum mlynedd, byddwn wedi sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwech o fodelau gofal integredig cenedlaethol newydd er mwyn i ddinasyddion Cymru, lle bynnag maen nhw'n byw, allu cael gwasanaeth effeithiol a di-dor mewn perthynas â'r canlynol:

- Gofal yn y gymuned – atal a chydgysylltu cymunedol.
- Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at y cartref.
- Hybu iechyd a llesiant emosiynol da.
- Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal.
- Gwasanaethau adref o'r ysbyty.
- Atebion seiliedig ar lety.

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid flaenorol, ac mae hefyd yn ymateb i'r argymhellion a gyflwynwyd yn y priod werthusiadau annibynnol ac yn adroddiadau Archwilio Cymru.


Mae'r wybodaeth hollbwysig hon wedi ein helpu i lunio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sy'n cynnwys pedair nodwedd allweddol:

- Canolbwyntio mwy ar chwech o fodelau gofal integredig cenedlaethol newydd.
- Fframwaith canlyniadau a mesur clir.
- Cyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgwyd drwy gyfrwng cymunedau ymarfer.
- Gorwel buddsoddi tymor hwy, gan ddefnyddio ysgogiadau tapro ac arian cyfatebol i ategu prif ffrydio a chynaliadwyedd.

Fel y nodir yn Cymru Iachach, bydd ein gweledigaeth o ran cael dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol angen ymdrech drwy'r holl system. Mae'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid flaenorol wedi cynorthwyo i ddatblygu modelau gofal a gwasanaethau lleol a rhanbarthol.

Ein her yn awr yw sicrhau y caiff y modelau llwyddiannus hynny eu mabwysiadu a'u hymgorffori'n genedlaethol.

Ffigur 1: Dull trawsnewidiol o ddatblygu Modelau Cenedlaethol





Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn fuddsoddiad pwysig a sylweddol, a rhaid targedu'r arian at fodelau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a fydd yn esgor ar well gwerth, gyda'r nod o gyflymu eu datblygiad a dangos eu gwerth.

Ar ddiwedd y rhaglen pum mlynedd, disgwyliwn weld y bydd y modelau gofal cenedlaethol hyn wedi cael eu hymgorffori ledled Cymru.

## Creu system Gofal Integredig yn y Gymuned i Gymru

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn un o blith nifer o raglenni gwaith sy'n cynorthwyo i sefydlu Glasbrint ar gyfer System Gofal Integredig yn y Gymuned i Gymru. (Mae'r rhaglenni eraill yn cynnwys y rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, Rhaglenni Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, y Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol a rhaglenni cyfalaf fel y Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.

Ffigur 2: Glasbrint ar gyfer System Gofal Integredig yn y Gymuned i Gymru



Mae'r glasbrint hwn ar gyfer System Gofal Integredig yn y Gymuned (gweler ffigur 2) wedi'i wreiddio yn yr awydd i helpu pobl i gyflawni'r '*hyn sy'n bwysig iddynt*' ac mae'n ymgorffori'r chwe model gofal integredig cenedlaethol a bennir yn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Y bwriad yw gwella gallu a chapasiti ein system iechyd a gofal cymdeithasol 'y tu allan i'r ysbyty'. Gan weithio ar draws iechyd sylfaenol a chymunedol, gofal cymdeithasol, tai a'r trydydd sector, y nod yw adeiladu gofal a chymorth di-dor a chydgysylltiedig i bobl, gan eu helpu i wneud y canlynol:

- sicrhau iechyd a llesiant da
- atal anghenion rhag dwysáu
- byw'n dda gartref, mor annibynnol â phosibl
- cael gafael ar wasanaethau gofal a chymorth cydgysylltiedig yn nes at y cartref
- osgoi cael eu derbyn yn ddiangen i'r ysbyty
- gadael yr ysbyty a dychwelyd adref yn ddiogel ac yn gyflym yn achos pobl sydd wir angen gofal eilaidd.

Mae'r Glasbrint ar gyfer System Gofal Integredig yn y Gymuned yn disgrifio dull system gyfan o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal di-dor y tu allan i'r ysbyty ac mae'n nodi'r dulliau galluogi allweddol y mae angen eu datblygu i ategu systemau effeithiol, di-dor ac integredig, gan gynnwys:

- Fframweithiau canlyniadau a mesur cyffredin.
- Gweithlu medrus a galluog a all weithio ar draws ffiniau sefydliadol.
- Gwybodaeth ddigidol, gadarn, ddibynadwy, y gellir ei rhannu.
- Trefniadau llywodraethiant, craffu ac atebolrwydd clir i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig.
- Llwybrau asesu a gofal cydgysylltiedig.
- Adnoddau a chyfleusterau a rennir, gan gynnwys cyllidebau cyfun.
- Diwylliant sefydliadol ac arweiniad effeithiol i ategu gweithio cydweithredol ac integredig.
- Defnyddio technoleg yn y ffordd orau i ategu hunanofal, gan helpu pobl i fyw'n well gartref.
- Mynd ati mewn modd cydgysylltiedig i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau iechyd a gofal.

Mae'r gwaith o fuddsoddi drwy gyfrwng y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r rhaglenni allweddol eraill a restrir uchod eisoes wedi dechrau nodi ac ymgorffori rhai elfennau/gwasanaethau allweddol ym mhob model gofal, fel y dangosir yn ffigur 3.

Ffigur 3: yr elfennau a'r gwasanaethau a nodwyd ar gyfer pob un o'r Modelau Gofal

## Cymru Iachach

### Chwech o Fodelau Gofal Integredig

| **Atal a chydgysylltu cymunedol** | **Hybu iechyd a llesiant emosiynol da** | **Gofal cymhleth yn nes at y cartref** | **Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal** | **Adref o'r ysbyty** | **Atebion seiliedig ar lety** |
|---|---|---|---|---|---|
| Presgripsiynu cymdeithasol<br>Cydygysylltu lleol yn y gymuned<br>Cyfeillio<br>Gwasanaethau cymorth yn y cartref<br>Gwasanaethau seibiant i ofalwyr di-dâl<br>Osgoi cludo cleifion– ymarferwyr parafeddygol uwch<br>Swyddogion llesiant cymunedol<br>Gwybodaeth (cyfeiriaduron gwasanaeth), cyngor a chymorth<br>Seilwaith cymunedol<br>Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd<br>Clystyrau carlam | Un pwynt mynediad (24 awr)<br>Gwasanaethau cymorth a chyngor cynnar<br>Cymorth triniaeth yn y gymuned (gan gynnwys cymorth gan y trydydd sector | Timau adnoddau cymunedol integredig<br>Gwasanaeth teleofal<br>Rhaglenni pecyn gofal gan unigolyn<br>Allgymorth cartref gofal (osgoi derbyn i'r ysbyty)<br>Storfeydd cyfarpar cymunedol integredig<br>Gwasanaeth ailalluogi ac atal cwympiadau<br>Modelau aros yn iach gartref<br>Technoleg gynorthwyol<br>Addasiadau yn y cartref | Modelau megis Tîm o Amgylch y Teulu/cymorth cynnar<br>Cynadleddau grŵp i deuluoedd<br>Model adfer ar ôl trawma<br>Modelau ar ffiniau gofal | Rhyddhau i adfer ac yna asesu<br>Aseswyr dibynadwy<br>Trefniadau 'drws ffrynt'/osgoi derbyn i'r ysbyty/ gofal heb ei drefnu<br>Gwell gofal yn y gymuned<br>Trafnidiaeth gymunedol<br>Cymorth cyn/ar ôl derbyn i'r ysbyty<br>Camu i fyny/camu i lawr<br>Cymorth nad yw'n glinigol (modelau math PIVOT)<br>Llwybrau 0 ac 1<br>Addasiadau yn y cartref<br>Manyleb nyrsio | Cyfleusterau camu i fyny/camu i lawr/ gofal canolraddol<br>Addasiadau i'r cartref yn gyflym<br>Gofal ychwanegol<br>Llety diogel<br>Darpariaeth gofleidiol ar gyfer byw'n annibynnol |

## Mesur canlyniadau

Gellir gweld fframwaith canlyniadau llawn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn Atodiad 1. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn dangos y ddau ganlyniad lefel uchel y bydd pob Model Gofal yn cyfrannu atynt.

Mae proses ar waith i brofi dulliau adrodd, a fydd yn galluogi rhanbarthau i adrodd yn erbyn y canlyniadau a'r dangosyddion y cytunwyd arnynt, a mesur effeithiau. Bydd dadansoddiad manylach yn cael ei gyflwyno yn yr ail adroddiad blynyddol.

| Model Gofal | Canlyniadau Lefel Uchel |
|---|---|
| **Gofal cymunedol – atal a chydgysylltu cymunedol** | 1. Caiff anghenion llesiant pobl eu gwella drwy ddefnyddio atebion cymunedol cydgysylltiedig. |
| | 2. Mae atebion lleol sy'n ymwneud ag atal ac ymyrryd yn fuan yn cynorthwyo pobl i osgoi ymyriadau uwchgyfeirio ac ymyriadau argyfwng. |
| **Gofal cymunedol – gofal cymhleth yn nes at y cartref** | 1. Caiff pobl eu cynnwys yn fwy wrth benderfynu ble byddant yn byw tra'n derbyn gofal a chymorth. |
| | 2. Mae pecynnau gofal a chymorth cymhleth yn well am ddiwallu anghenion pobl a chânt eu darparu yn y cartref neu'n agos ato. |
| **Hybu iechyd a llesiant emosiynol da** | 1. Caiff pobl eu cynorthwyo'n well i reoli eu bywydau a'u llesiant eu hunain. |
| | 2. Mae gan bobl well sgiliau, gwybodaeth a hyder i adnabod eu hanghenion llesiant eu hunain yn annibynnol. |
| **Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal** | 1. Caiff teuluoedd well cymorth i'w helpu i aros gyda'i gilydd. |
| | 2. Mae cymorth therapiwtig yn gwella ac yn cyfoethogi llesiant plant â phrofiad o fod mewn gofal. |
| **Adref o'r ysbyty** | 1. Caiff pobl fynd adref o'r ysbyty mewn modd amserol ac mae cymorth angenrheidiol ar waith pan gânt eu rhyddhau. |
| | 2. Mae pobl yn deall y broses ryddhau yn well a chânt eu cynnwys yn fwy yn y broses gynllunio cyn ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. |
| **Atebion seiliedig ar lety** | 1. Caiff pobl eu cynnwys yn fwy yn y gwaith o gynllunio llety i ddiwallu eu hanghenion. |
| | 2. Mae gan bobl fwy o ddewis ynglŷn â ble maent yn byw, a chyda phwy. |

# Adolygiad o'r flwyddyn

## Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i ranbarthau a phrosiectau yn ôl modelau gofal

**Gofal cymunedol: atal a chydgysylltu cymunedol**

Cyllid a ddyrannwyd
£36,197,384

Nifer y prosiectau
47

Canran y dyraniad cyllid
30%

**Gofal cymunedol: gofal cymhleth yn nes at y cartref**

Cyllid a ddyrannwyd
£24,327,739

Nifer y prosiectau
30

Canran y dyraniad cyllid
20%

**Hybu iechyd a llesiant emosiynol da**

Cyllid a ddyrannwyd
£8,384,628

Nifer y prosiectau
39

Canran y dyraniad cyllid
7%

**Cynorthwyo teuluoedd a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o ofal**

Cyllid a ddyrannwyd
£18,982,717

Nifer y prosiectau
25

Canran y dyraniad cyllid
16%

**Adref o'r Ysbyty**

Cyllid a ddyrannwyd
£29,674,596

Nifer y prosiectau
30

Canran y dyraniad cyllid
25%

**Atebion seiliedig ar lety**

Cyllid a ddyrannwyd
£2,564,176

Nifer y prosiectau
13

Canran y dyraniad cyllid
2%

## Cyfanswm y cyllid wedi'i glustnodi a ddyrannwyd i ranbarthau

Dyrannwyd 100% o'r cyllid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn iddynt allu cyflawni yn erbyn ymrwymiadau gweinidogol cenedlaethol. Gelwir hyn yn gyllid wedi'i glustnodi.

Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig
**£2,977,000**

Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia
**£8,999,000**

Gwasanaethau Asesu'r Cof
**£3,031,000**

Rhyddhau o'r ysbyty: ymgysylltu â gofalwyr di-dâl
**£1,000,000**

Cynllun seibiant byr ar gyfer gofalwyr di-dâl
**£1,812,000**

## Hybu'r sector gwerth cymdeithasol a chymorth uniongyrchol i ofalwyr di-dâl

Yn 2022-23, roedd disgwyl i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fuddsoddi o leiaf 5% o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y gwaith o gynnig cymorth uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, ac 20% yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng sefydliadau'r sector gwerth cymdeithasol.

| Cyfanswm y buddsoddiad mewn gwerth cymdeithasol | Cyfanswm y buddsoddiad mewn gofalwyr di-dâl |
|---|---|
| **£24,686,000** | **£12,321,109** |
| 1% **islaw'r** Buddsoddiad Lleiaf | 5% **uwchlaw'r** Buddsoddiad Lleiaf |

## Cyfanswm y buddsoddiad yn seilwaith y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a chostau rheoli'r rhaglen

Mae'n hanfodol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael trefniadau seilwaith ac adnoddau digonol i'w cynorthwyo i gyflawni yn unol â'r disgwyliadau a'r dyletswyddau a roddir ar bob un ohonynt o dan Ran 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Disgwylir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o leiaf sicrhau bod eu trefniadau seilwaith rhanbarthol yn cynnwys y rolau a'r adnoddau craidd canlynol:

- Galluogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fodloni dyletswyddau Rhan 9 – (datblygu a chynorthwyo'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, craffu a rheoli perfformiad, datblygu a goruchwylio rhaglenni thematig, Asesu Anghenion y Boblogaeth, Cynlluniau Ardal ac Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad).
- Deallusrwydd busnes a rheoli perfformiad integredig.
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu (yn cynnwys cymorth pwrpasol i gefnogi gofalwyr, dinasyddion a'r trydydd sector a chynnwys darparwyr yng ngwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol).
- Datblygu a goruchwylio Cyllideb Gyfun.
- Hwyluso'r gwaith o gomisiynu/cynllunio gwasanaethau ar y cyd.
- Hybu'r sector gwerth cymdeithasol a hwyluso'r fforwm gwerth cymdeithasol.
- Rheolaeth ariannol (heb fod yn gysylltiedig â rhaglenni).
- Datblygu Gweithlu Integredig i ategu modelau gofal integredig.

Nid yw'r costau seilwaith hyn yn cynnwys costau rheoli rhaglenni na chostau cyflawni sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol neu gronfeydd eraill. Dylid cymryd y costau hyn yn gymesur o'r gronfa gyflymu neu'r gronfa ymgorffori.

| Cyfanswm y buddsoddiad yn seilwaith y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | Cyfanswm y buddsoddiad mewn rheoli rhaglenni |
|---|---|
| **£4,700,343** | **£2,505,783** |

## Tapro ac arian cyfatebol gan bartneriaid rhanbarthol

Cafodd saernïaeth y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ei llunio ar y cyd â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn annog ymhellach y gwaith o brofi, ymgorffori a phrif ffrydio modelau cymorth integredig cenedlaethol.

Disgwylir y bydd arian cyfatebol gan bartneriaid yn cael ei ddarparu o flwyddyn un, gyda 10% ar gyfer cyflymu newid a 30% ar gyfer modelau ymgorffori.

| Cyfanswm y buddsoddiad yn seilwaith y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | Cyfanswm y buddsoddiad mewn rheoli rhaglenni |
|---|---|
| **£2,505,783** | **£4,700,343** |

# Llwyddiannau rhanbarthol ym mlwyddyn un yn ôl modelau gofal

Yn ystod 2021-22, cynhaliwyd ymarfer cydlunio helaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau y byddai modd i'r gronfa olynol adlewyrchu'r pethau a ddysgwyd gan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, ac ymateb iddynt. Roedd yr ymarfer hwn yn cynnwys ymateb i ganfyddiadau adroddiad a luniwyd gan Archwilio Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig ynghyd â gwerthusiadau annibynnol ffurfiol yn ymwneud â'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid.

Ar ôl cynnal y broses gydlunio hon, ym mis Ebrill lansiodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol – cronfa newydd ac uchelgeisiol a oedd yn werth £144.7m.

Mae'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi llunio'u cynlluniau buddsoddi eu hunain mewn perthynas â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac maent yn gwneud cynnydd da o ran profi a datblygu elfennau hollbwysig ein chwe model gofal cenedlaethol.

Wrth inni bennu mwy a mwy o dystiolaeth yn ymwneud ag arferion gorau ledled y wlad, bydd modd cynnwys yr wybodaeth hon mewn manylebau gwasanaethau cenedlaethol a fydd yn sicrhau safonau a phrofiadau mwy cyson ledled Cymru.

Rydym wedi datblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a fydd yn cynorthwyo Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gasglu profiadau ansawdd bywyd y bobl hynny sy'n elwa ar weithgareddau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ynghyd â gwybodaeth rifyddol er mwyn deall effaith y modelau gofal hyn a'r canlyniadau a gyflawnir ar gyfer pobl.

Ym mis Mawrth 2022, sefydlwyd Cymunedau Ymarfer a chawsant eu cydweddu â'r modelau gofal. Mae ethos y Cymunedau Ymarfer yn gynhwysol ac mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys unigolion a sefydliadau ar draws sectorau, yn ogystal â dinasyddion a gofalwyr di-dâl.

Mae gan bob un o'r Cymunedau Ymarfer bron i 100 o aelodau, ac mae rhwng 30 a 40 yn mynychu pob cyfarfod. Rôl y Cymunedau Ymarfer yw rhannu dysgu ac arferion gorau, hybu dysgu drwy weithredu, canolbwyntio ar atebion a phennu elfennau craidd tebygol pob model gofal, a thrwy hynny helpu i ddatblygu manyleb genedlaethol ar gyfer pob un o'r modelau.

Mae tudalennau canlynol yr adroddiad yn dangos lefel y buddsoddiad a wnaed gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol tuag at bob model gofal, mewn perthynas â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Hefyd, canolbwyntir ar bob un o'r rhanbarthau, gan archwilio'n fanylach rai enghreifftiau o'r gwaith gwych a wnaed yn ystod y flwyddyn gyntaf.

## ATAL A CHYDGYSYLLTU CYMUNEDOL

Dylai pobl gael cymorth i fyw eu bywydau i'r eithaf. Drwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gallwn wella llesiant pobl a sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen ar bobl yn fwy cynaliadwy.

Isod, ceir manylion am y modd y dyrannwyd y cyllid yn ôl rhanbarthau, gan gynnwys nifer y prosiectau a gyflwynwyd drwy'r cynigion buddsoddi.

| | Dyraniad cyllid | Nifer y prosiectau |
| --- | --- | --- |
| **Caerdydd a'r Fro** | **£9,742,079** | **8** |
| **Cwm Taf Morgannwg** | **£11,879,939** | **7** |
| **Gwent** | **£4,149,306** | **2** |
| **Gogledd Cymru** | **£3,736,453** | **10** |
| **Powys** | **£989,712** | **6** |
| **Gorllewin Morgannwg** | **£2,945,628** | **6** |
| **Gorllewin Cymru** | **£2,754,266** | **8** |

## CIPOLWG AR RANBARTH

Rhanbarth: **Cwm Taf Morgannwg**

Prosiect: **Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth – cymorth yn y gymuned**

### Nod y prosiect:

- Sefydlu mannau mynediad ar gyfer y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth mewn cymunedau a darparu cymorth ac ymyriadau parhaus yn y gymuned er mwyn i deuluoedd allu ymgysylltu â'u cymunedau, cymryd rhan ynddynt a chyfrannu atynt wedyn.
- Gwella mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal sy'n ceisio gwella cydnerthedd unigolion a theuluoedd er mwyn atal plant, pobl ifanc a theuluoedd rhag bod angen ymyrraeth statudol.
- Lleihau nifer y plant a ddaw'n hysbys i wasanaethau statudol drwy gynyddu nifer y teuluoedd a chanddynt well cydnerthedd yn sgil cymryd rhan mewn bywyd cymunedol.

### Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

Mae'r gwasanaeth wedi gallu meithrin cydberthnasau gweithio mwy cadarnhaol gyda gwasanaethau a grwpiau cymunedol lleol, gan sicrhau cwmpas eang o drigolion mewn cymunedau lleol a chan ddatblygu systemau cymorth yn y gymuned i deuluoedd a atgyfeiriwyd ar gyfer ymyriadau gyda'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.

- Yn ystod 2022-23, cynorthwyodd y prosiect **1,225** o deuluoedd, ac o'u plith roedd **574** ohonynt yn deuluoedd newydd.
- Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i **4,266** o unigolion a gynorthwywyd yn ystod y flwyddyn.
- Cafodd y mwyafrif o'r teuluoedd hyn eu cynorthwyo drwy gyfrwng sesiynau galw heibio yn y gymuned (**28**) a sesiynau un-i-un (**2,836**).
- Yn ychwanegol at y sesiynau hyn, cynorthwywyd **332** o unigolion ar ôl iddynt gamu i lawr o wasanaethau plant.

Cynhelir gweithgareddau ymgysylltu er mwyn cael adborth a gwybodaeth am brofiadau defnyddwyr y gwasanaeth. Dengys yr adborth hwn fod newid cadarnhaol wedi dod i ran bywydau'r defnyddwyr.

> **“Dw i wedi gwneud llawer o newidiadau. Mae fy hyder a'r ffordd Dw i'n edrych ar fywyd wedi newid. Dw i'n teimlo'n wahanol.”**

> **“Does neb yn sylweddoli pa mor dda ydych chi. Nac oes wir. O'r holl rai sydd wedi gweithio gyda fi, chi yw fy 'newines garedig' i.”**

## Cipolwg ar ranbarth

Rhanbarth: **Gwent**

Prosiect: **Cymunedau Cysylltiedig**

Mae'r rhaglen Cymunedau Cysylltiedig yn rhoi dull system gyfan ar waith mewn perthynas â chymorth yn y gymuned, ymyrraeth gynnar ac atal, gan ddefnyddio cymorth o dri math – adeiladu ar y cysylltiadau a sefydlwyd gyda chymunedau lleol drwy gyfrwng cysylltwyr cymunedol; darparu cymorth drwy gyfrwng timau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth; a phrosiectau sy'n ategu atal, llesiant a chynhwysiant iechyd. Mae'r rhaglen yn sicrhau bod modd cynnal neu wella llesiant pobl, a bod modd osgoi neu leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Bwriad y rhaglen yw lleihau effeithiau unigrwydd a theimladau ynysig drwy feithrin dulliau a mannau llesiant yn y gymuned, gan sefydlu cysylltiadau a rhwydweithiau yn yr ardal a chreu atebion yn y gymuned.

### Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

Yn ystod 2022-23, llwyddodd y rhaglen i gynorthwyo **25,276** o bobl mewn gwahanol ffyrdd. O blith y bobl hyn, cafodd **7,706** ohonynt wybodaeth, cyngor a chymorth, cafodd **7,109** ohonynt help a chymorth cynnar, a chafodd **308** ohonynt gymorth dwys wedi'i dargedu. Yn ychwanegol at hyn, cafodd **400** o bobl hyfforddiant.

Cynorthwywyd **605** o bobl gan y Prosiect Atal a Lleihau Colli Golwg, sy'n gwella hyder a lles, annibyniaeth ariannol a phersonol, sy'n galluogi pobl i aros gartref. Mae hyn yn lleihau'r effaith o ran yr angen am ofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol a gofal eilaidd.

Ymatebodd y Gwasanaeth Ymateb i Gwympiadau i **902** o ddigwyddiadau ar hyd a lled Gwent, ar ôl i bobl a oedd wedi cwympo a phobl hŷn gysylltu â gwasanaeth Ambiwlans Cymru drwy ffonio'r gwasanaethau brys ar 999. Roedd **74** ohonynt yn ddigwyddiadau a allai beryglu bywyd; roedd yr **828** arall yn flaenoriaeth gyda chod penodol ar gyfer cwympiadau neu eiddilwch.

O blith yr **828** o ddigwyddiadau yr ymatebwyd iddynt, yn achos **681** llwyddwyd i roi cymorth i'r cleifion fel y gallent aros adref heb orfod mynd i'r ysbyty. Roedd y gyfradd ar gyfer peidio â chludo pobl i'r ysbyty yn 82%.

> **“Fe wnaethoch chi fy helpu i fentro allan. Heboch chi, fyddwn i ddim wedi cymryd y cam hwnnw. Rydych chi'n gwneud gwaith ardderchog ac wedi gwneud byd o les i mi drwy eich anogaeth. Rydych chi'n werth y byd.”**

> **“Mae'r cynllun cyfeillio yn estyn llaw hanfodol i bobl sydd wedi'u hynysu o'r gymuned. Dw i mor falch ein bod yn gallu rhoi'r cyfle i bobl fod yn rhan o gymuned eto.”**

## CIPOLWG AR RANBARTH

Rhanbarth: **Powys**

Prosiect: **Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol**

Mae'r Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol yn cynorthwyo pobl i gael gafael ar wasanaethau a gweithgareddau yn y gymuned. Gall y gwasanaethau hyn helpu pobl i fyw'n annibynnol ac osgoi'r angen am wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol lefel uwch, yn ogystal â helpu pobl i gael eu rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty.

Yn wreiddiol, datblygwyd y Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol hwn o dan y Gronfa Gofal Integredig, ac erbyn hyn mae'r gwasanaeth wedi datblygu'r gwasanaethau a ddarperir ganddo er mwyn diwallu anghenion newidiol y boblogaeth ac ymateb i flaenoriaethau iechyd a gofal.

### Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

**Dyma nodau'r Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol:**

1. Defnyddio cryfderau'r gymuned a'r amgylchedd ffisegol yn y ffordd orau fel y gellir cynorthwyo pobl i gynnal eu hiechyd a'u llesiant.
2. Canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar er mwyn cynorthwyo pobl i ddal gafael ar eu hannibyniaeth a chymryd rhan yn y gymuned.
3. Dull mwy cydgysylltiedig o reoli cyflyrau hirdymor, lle caiff pawb gyfle i adeiladu ar eu cryfderau.
4. Helpu pobl i oresgyn unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a'u cynorthwyo i fod yn aelodau gweithgar o'u cymuned.
5. Cynorthwyo timau iechyd a gofal i weithio'n ddi-dor gyda phobl hŷn fel y gellir gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf ac atal anghenion rhag dwysáu.
6. Ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid fel y gellir mynd ati'n barhaus i fonitro a diwygio'r arlwy fel bo'r angen, gan sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y boblogaeth.
7. Ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd ac arolwg blynyddol.

## Dyma rai o'r canlyniadau allweddol?

- Atgyfeiriwyd neu cyfeiriwyd **570** o gleientiaid at y trydydd sector ac at weithgareddau/grwpiau cymunedol.
- Atgyfeiriwyd **199** o gleientiaid at wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd i gael cymorth ychwanegol nad oedd i'w gael yn y trydydd sector.
- Cynorthwywyd **885** o gleientiaid, gan gynnwys 19 â dementia a 48 o ofalwyr.
- Mynychodd y Cysylltwyr **241** o gyfarfodydd Wardiau Rhithwir/Timau Amlddisgyblaethol/ Sgrinio ASSIST/Fforymau Ymarfer Gofal a Llif Cleifion, gan fwydo gwybodaeth y trydydd sector i drafodaethau gyda Chydweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Drwy gyfrwng y cyfarfodydd hyn, cafwyd **162** o atgyfeiriadau uniongyrchol am gymorth ychwanegol ar gyfer cleientiaid.
- Cynorthwywyd **69** o gleientiaid a ddywedodd fod ynysigrwydd cymdeithasol, unigrwydd neu gwmnïaeth yn broblem iddynt.
- Cyfeiriwyd neu atgyfeiriwyd **71** o gleientiaid at Wasanaeth Cyfeillio Powys.
- Cynorthwywyd **19** o gleientiaid a oedd yn yr ysbyty.
- Cafwyd **501** o atgyfeiriadau gan wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Atgyfeiriwyd **199** o gleientiaid at wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd i gael cymorth ychwanegol nad oedd i'w gael yn y trydydd sector.
- Ymgysylltwyd â'r trydydd sector drwy gyfrwng 13 o gyfarfodydd rhwydwaith yn yr ardal, a chafodd y cyfarfodydd hynny eu hwyluso a'u cefnogi gan y tîm Cysylltwyr Cymunedol.
- Cynhaliwyd arolwg blynyddol proffesiynol yn ystod Ch4. Dywedodd **100%** o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, a dywedodd **100%** ohonynt fod y gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol wedi deall eu cwestiwn neu eu hymholiad.
- Yn ôl **100%** o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg, bu modd i'r gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol roi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt neu ateb eu cwestiwn.
- Yn ôl **90%** o'r ymatebwyr, llwyddodd yr wybodaeth a gawsant i'w helpu i gynorthwyo'r claf/cleient roeddynt yn gweithio gydag ef.
- Yn achos y rhai a gysylltodd â'r gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol ar ran cleientiaid/cleifion, dywedodd **50%** ohonynt fod yr wybodaeth a gawsant wedi gwneud gwahaniaeth i'w hiechyd a'u llesiant.

## GOFAL CYMHLETH YN NES AT Y CARTREF

Helpu i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl mor agos â phosibl at eu cartrefi mewn ffordd ddi-dor ac integredig.

Isod, ceir manylion am y modd y dyrannwyd y cyllid yn ôl rhanbarthau, gan gynnwys nifer y prosiectau a gyflwynwyd drwy'r cynigion buddsoddi.

| | Dyraniad cyllid | Nifer y prosiectau |
|---|---|---|
| **Caerdydd a'r Fro** | £3,758,887 | 5 |
| **Cwm Taf Morgannwg** | £1,716,500 | 3 |
| **Gwent** | £9,687,087 | 4 |
| **Gogledd Cymru** | £6,924,083 | 7 |
| **Powys** | £247,269 | 4 |
| **Gorllewin Morgannwg** | £84,343 | 2 |
| **Gorllewin Cymru** | £1,909,569 | 6 |

## CIPOLWG AR RANBARTH

Rhanbarth: **Gwent**

Prosiect: **Gofal Graddedig sy'n Seiliedig ar Leoedd**

Mae'r rhaglen Gofal Graddedig sy'n Seiliedig ar Leoedd yn cynorthwyo oedolion 18 oed a hŷn sydd angen gwybodaeth, cyngor neu gymorth. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar gydberthnasau, gan ddefnyddio asedau cymunedol. Mae tîm y rhaglen yn gwybod llawer am ddemograffeg ac adnoddau'r gymuned leol ac mae'n ymateb yn uniongyrchol i unigolion sydd angen cyngor neu gymorth.

Roedd y rhaglen yn cynnwys agwedd cam-i-fyny/cam-i-lawr a gynigiai ofal pontio rhwng yr ysbyty a'r cartref i bobl a oedd angen cymorth ychwanegol i adsefydlu ac adfer. Yn sgil y gwasanaeth, bu modd i bobl gael eu rhyddhau ynghynt o'r ysbyty a llwyddwyd i gynorthwyo pobl i aros yn eu cartrefi, gan roi iddynt gymorth a oedd wedi'i deilwra yn ôl eu hanghenion. Nod y gwelyau cam-i-fyny/cam-i-lawr oedd lleihau derbyniadau diangen i ysbytai acíwt, lleihau derbyniadau cyn pryd i leoliadau gofal 24 awr, a hybu annibyniaeth.

Hefyd, cyfrannodd y rhaglen at ddarparu gofal seibiant i unigolion mewn cartrefi preswyl, gan helpu i leihau'r pwysau ar deuluoedd a gofalwyr anffurfiol yn ogystal â lleihau'r pwysau ar ddarparwyr gofal statudol.

### Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

Dros flwyddyn ariannol 2022-23, mae'r rhaglen wedi cynorthwyo llawer o unigolion – cafwyd **9,849** o atgyfeiriadau a dechreuodd **215** o bobl ddefnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf. Defnyddiodd cyfanswm o **12,498** o unigolion y gwasanaeth, gan arwain at **15,034** o gysylltiadau â thîm y rhaglen.

Caiff cymorth y rhaglen ei deilwra'n ôl anghenion yr unigolyn ac mae'n cynnig cymorth ar draws y continwwm atal. Cafodd **742** o bobl gymorth cyffredinol (gwybodaeth, cyngor a chymorth), cafodd **420** o bobl help a chymorth cynnar teilwredig, cafodd **3,501** o bobl gymorth dwys, a chafodd **8,707** o bobl ymyriadau arbenigol.

Mae'r gwahaniaeth a wnaed i fywydau'r bobl a ddefnyddiodd y gwasanaethau yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar y rhaglen. Dywedodd **328** o unigolion eu bod wedi cael profiad da o ran y cymorth a gawsant, a llwyddodd **568** o unigolion i gynnal neu wella'u hiechyd a'u llesiant. Hefyd, fe wnaeth **414** o unigolion wella'u gwybodaeth am y gwasanaethau a'r cymorth a oedd ar gael iddynt, ac roedd **1,227** o unigolion o'r farn eu bod wedi llwyddo i gyflawni eu canlyniadau personol ar ôl iddynt gael cymorth gan y rhaglen.

> **"Roeddwn i'n bryderus iawn ar ôl imi gael gadael yr ysbyty. Doeddwn i ddim yn siŵr a fyddai modd imi ymdopi ar fy mhen fy hun. Yna, daeth y gofalwyr anhygoel hyn ata' i bob bore a nos – fy 'angylion gwarcheidiol'. Fe wnaethon nhw fy helpu i wneud pethau, a roi hyder imi i wneud pethau nad oeddwn i'n meddwl y byddai modd imi eu gwneud. Doedden nhw byth yn fy rhuthro. Y merched hyn a'm helpodd i wella. Dydyn nhw ddim yn dod ata' i nawr awr gan fy mod i'n gwella bob dydd, diolch iddyn nhw."**

## CIPOLWG AR RANBARTH

Rhanbarth: **Caerdydd a'r Fro**

Prosiect: **Gofal mewn argyfwng ac ymateb yn y cartref**

Uchelgais y prosiect gofal canolradd yw rhoi dull rhanbarthol ar waith a fydd yn dwyn ynghyd yr amryfal elfennau sy'n perthyn i ofal canolradd er mwyn cael cwmpas ehangach wrth ddatblygu'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.

Dyma nod y prosiect:

- Datblygu dull rhanbarthol a fydd yn cydweddu gwasanaethau â'r dull a nodir uchod ac a fydd hefyd yn llywio un Cynllun Darparu Gofal Canolradd ar gyfer 6 Nod, 1,000 o welyau Rhyddhau i Adfer yna Asesu.
- Defnyddio galluoedd modelu lleol i ddeall capasiti'r gwasanaethau a'r galw amdanynt, fel y gellir rhoi pethau ar waith ar y raddfa briodol.
- Datblygu gwaith paratoadol ar gyfer gwasanaeth integredig 24/7 gogyfer ymateb i argyfyngau, lle defnyddir arferion gorau a gwersi a ddysgwyd gan ranbarthau ledled Cymru.

### Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

Yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd cafodd **363** o bobl newydd gymorth gan y gwasanaeth bob mis ar gyfer gofal cam-i-fyny. Cafodd **174** o bobl newydd gymorth bob mis ar gyfer gofal cam-i-lawr.

Darparwyd y gwasanaethau hyn drwy ddefnyddio cymysgedd o gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a chyllid craidd.

Ymhellach, cafodd **105** o bobl gymorth gyda materion llety er mwyn hwyluso'u hadferiad parhaus, gan gynnwys **18** o bobl a gafodd lety dros dro i hwyluso'u hadferiad tra câi eu cartrefi parhaol eu haddasu.

Soniodd **95%** o achosion am welliannau o ran lleihau cyfyngiadau gweithgarwch, gofid cleientiaid ac amhariadau, a hefyd o ran cynyddu cyfranogiad.

Soniodd **74%** o achosion am leihad yng ngofid y gofalwyr.

Dywedodd **93%** o achosion fod llesiant y cleientiaid wedi gwella.

Roedd **100%** o'r bobl a oedd yn defnyddio llety cam-i-lawr o'r farn bod hynny wedi eu helpu i gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Cynorthwywyd i ryddhau **192** o bobl o'r ysbyty drwy ddarparu llety cam-i-lawr.

## Hybu Iechyd Emosiynol a Llesiant Da

Gan ategu'r buddsoddiad presennol mewn gwasanaethau iechyd meddwl acíwt, nod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yw: rhoi cymorth i unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant emosiynol eu hunain, caniatáu i sefydliadau gefnogi unigolion neu grwpiau ag anghenion iechyd a llesiant emosiynol, cefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch iechyd a llesiant emosiynol da a chefnogi'r gwaith o weithredu fframwaith NYTH/NEST ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc.

Isod, ceir manylion am y modd y dyrannwyd y cyllid yn ôl rhanbarthau, gan gynnwys nifer y prosiectau a gyflwynwyd drwy'r cynigion buddsoddi.

| | Dyraniad cyllid | Nifer y prosiectau |
|---|---|---|
| **Caerdydd a'r Fro** | £568,061 | 5 |
| **Cwm Taf Morgannwg** | £1,177,223 | 3 |
| **Gwent** | £1,174,462 | 3 |
| **Gogledd Cymru** | £1,203,936 | 4 |
| **Powys** | £1,809,566 | 6 |
| **Gorllewin Morgannwg** | £1,243,490 | 12 |
| **Gorllewin Cymru** | £1,207,888 | 8 |

## CIPOLWG AR RANBARTH

Rhanbarth: **Gorllewin Morgannwg**

Prosiect: **Hybu Iechyd a Llesiant Emosiynol Da i Ofalwyr**

Mae'r Rhaglen i Ofalwyr yn canolbwyntio'n fawr ar y model gofal sy'n hybu iechyd a llesiant emosiynol da i ofalwyr. Mae'n cynnwys 4 thema, sef:

1. Gwyliau byr ac egwylion seibiant hyblyg.
2. Cymorth llesiant a chwnsela yn y gymuned.
3. Cymorth yn y Gymuned i Ofalwyr Ifanc.
4. Cymorth yn y Gymuned i ofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys cymorth amrywiol i wahanol grwpiau o ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, rhieni sy'n ofalwyr, gofalwyr dementia a phobl hŷn sy'n ofalwyr.

### Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

#### Gwyliau Byr/Egwyl Seibiant Byr Hyblyg

O dan y thema hon, ceir 16 o brosiectau sy'n cynnig amrywiaeth o wyliau byr/egwylion seibiant hyblyg. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau eistedd, seibiant mewn argyfwng, cynlluniau 'rhoi amser yn ôl', sy'n cynnig help yn y cartref, gwelliannau i gartrefi, gwasanaethau tasgmon, cymorth i glirio, garddio, cymorth i lanhau, talebau ar gyfer gwyliau byr, grantiau ar gyfer ariannu gwyliau byr, gwyliau byr i rieni sy'n ofalwyr a thripiau preswyl i ofalwyr ifanc.

Cafodd **1,486** o ofalwyr wyliau byr ac egwylion seibiant yn 2022-23; er, ni roddwyd llawer o'r cynlluniau hyn ar waith tan ganol y flwyddyn ariannol. Cynorthwywyd **117** o ofalwyr ac **85** o ofalwyr ifanc drwy gynnig gwyliau byr/trip preswyl iddynt er mwyn galluogi'r gofalwyr i gael bywyd ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu a'u galluogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant.

#### Cymorth Llesiant a Chwnsela yn y Gymuned

O dan y thema hon, mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ariannu 8 prosiect fel y gellir darparu cymorth llesiant a chwnsela yn y gymuned i amrywiaeth o ofalwyr, gan gynnwys teuluoedd â phobl ifanc niwroamrywiol a chanddynt anghenion ychwanegol, a gofalwyr gwrywaidd. Cynorthwywyd **1,102** o ofalwyr drwy ddarparu'r cymorth canlynol:

- Galwadau llesiant rheolaidd gyda chysylltiadau â rhwydweithiau proffesiynol os oedd angen cymorth pellach.
- Cymorth mewn galar.
- Cymorth ar ddiwedd y rôl ofalu, gan gynnwys gweithdai a chymorth. mentora/hyfforddiant un-i-un er mwyn helpu gofalwyr i ddychwelyd at waith neu addysg.
- Sesiynau cwnsela un-i-un.
- Sesiynau cwnsela mewn grŵp.

### Cymorth yn y Gymuned i Ofalwyr Ifanc

Mae cynorthwyo a chanfod gofalwyr ifanc yn un o flaenoriaethau allweddol y Rhaglen i Ofalwyr. Yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe, ceir prosiectau sy'n cyflwyno sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion, colegau a grwpiau cymunedol, gan anelu at sicrhau bod modd canfod a chynorthwyo gofalwyr ifanc. Nod y prosiect yw sicrhau bod ein cymdeithas yn gwybod pwy yw ein gofalwyr ifanc, pa heriau y gallant eu hwynebu a sut gellir eu cynorthwyo, a chyflwynir hyfforddiant mewn ysgolion gan weithwyr proffesiynol a staff. Mae hi'n hanfodol i'r gymdeithas feddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer canfod a chynorthwyo gofalwyr ifanc er mwyn sicrhau y cânt y cymorth angenrheidiol. Cynorthwywyd **162** o ofalwyr ifanc a chyflwynwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth i **14,213** o blant a phobl ifanc mewn ysgolion, colegau a lleoliadau cymunedol ar hyd a lled Gorllewin Morgannwg. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, nododd y prosiect fod **99.4%** (497/500) o'r plant a'r bobl ifanc a fynychodd sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi dweud eu bod yn gwybod ble i fynd i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y dyfodol. Roedd **96.4%** (54/56) o ofalwyr ifanc o'r farn bod digwyddiadau ymgysylltu/cadw mewn cysylltiad wedi eu helpu.

Mae prosiect rhanbarthol wedi galluogi **81** o ofalwyr ifanc ledled Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot i wneud cais am Grant Gofalwyr Ifanc. Mae'r grant hwn wedi helpu Gofalwyr Ifanc i gael gafael ar wasanaethau ac eitemau a'u galluogi i gael seibiant ystyrlon oddi wrth eu rôl ofalu – naill ai'n gorfforol neu'n feddyliol. Yn sgil hyn, cafodd y gofalwyr ifanc gyfle i gael amser iddyn nhw eu hunain ac amser i gymdeithasu gyda'u teulu a'u cyfeillion, gan gefnogi eu llesiant cyffredinol.

### Cymorth yn y Gymuned i Ofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

Cydnabyddir bod anghydraddoldebau o ran iechyd gwael yn gwaethygu ymhlith gofalwyr di-dâl, ac yn enwedig felly ymhlith gofalwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Ceir prosiect hollbwysig o'r enw 'Cymorth yn y Gymuned i Ofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol'. Mae'r prosiect hwn yn canfod gofalwyr, yn eu dwyn ynghyd, yn canfod beth yw eu hanghenion ac yn cynorthwyo gofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy roi iddynt strategaethau ymdopi a hyder/sicrwydd yn eu gallu a'u sgiliau i ddarparu gofal, gan fynd ati ar yr un pryd i ofalu am eu llesiant eu hunain. Mae'r prosiect hwn yn cynnig cymorth arbenigol i ofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gan gydnabod gwahaniaethau cynnil mewn diwylliannau, ac mae'n ymwybodol o faterion yn ymwneud â rhwystrau ieithyddol, er mwyn ennyn ymddiriedaeth gofalwyr mewn gwahanol gymunedau. Yn 2022-23, cynorthwyodd y prosiect **163** o ofalwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol; cafodd **98** ohonynt asesiad mewnol a dywedodd 100% o'r rhai a ymatebodd eu bod yn credu bod eu hanghenion wedi cael eu diwallu.

## CYNORTHWYO TEULUOEDD I AROS GYDA'I GILYDD YN DDIOGEL A CHYMORTH THERAPIWTIG I BLANT Â PHROFIAD O FOD MEWN GOFAL

Gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel ac atal yr angen i blant fod yn rhai sy'n derbyn gofal. Bydd yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio o fewn cyd-destun strategol cyffredin sy'n cynnwys blaenoriaethau gwasanaethau plant awdurdodau lleol ac sy'n gweithio i gyflawni hynny.

Isod, ceir manylion am y modd y dyrannwyd y cyllid yn ôl rhanbarthau, gan gynnwys nifer y prosiectau a gyflwynwyd drwy'r cynigion buddsoddi.

| | Dyraniad cyllid | Nifer y prosiectau |
|---|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | £1,954,913 | 2 |
| Cwm Taf Morgannwg | £458,765 | 3 |
| Gwent | £3,249,247 | 3 |
| Gogledd Cymru | £9,144,261 | 8 |
| Powys | £610,000 | 6 |
| Gorllewin Morgannwg | £1,894,177 | 4 |
| Gorllewin Cymru | £1,617,353 | 4 |

## Cipolwg ar ranbarth

Rhanbarth: **Gogledd Cymru**

Prosiect: **Cymorth preswyl dwys i blant ag anghenion cymhleth – Cam-i-fyny Cam-i-lawr – Model Gofal Maeth Uwch**

Mae'r prosiect yn anelu at hybu sefydlogrwydd lleoliadau ynghyd ag atal lleoliadau rhag chwalu, atal y sefyllfa rhag gwaethygu yn achos plant sy'n wynebu risg o fynd i leoliadau preswyl, a hwyluso plant i 'gamu i lawr' o leoliadau preswyl.

Caiff y prosiect Gofal Maeth Uwch ei ddarparu gan CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) ac ymgorfforir elfen seicoleg benodol yn y Gwasanaethau Plant. Mae'r prosiect yn cynnwys y canlynol:

- Hyfforddi a datblygu.
- Cyfrannu at asesiadau neu ddarparu asesiadau datblygiadol annibynnol ategol ar gyfer llywio lleoliadau a gofal gan roi sylw arbennig i ddiffinio'r math o gyfraniad therapiwtig a gâi ei werthfawrogi.
- Datblygu llwybrau a hwyluso mynediad at CAMHS, gwasanaethau niwroddatblygiadol a gwasanaethau eraill.
- Integreiddio'r rhwydwaith, gwaith achos ar y cyd â chydweithwyr Gwaith Cymdeithasol, goruchwylio agweddau arbenigol a pherthnasol ar waith achos cydweithwyr Gwaith Cymdeithasol, a chynnig safbwynt seicolegol i'r rhwydwaith pan fo angen, er nad yw'r prosiect yn ymhél â gwaith achos.
- Sefydlwyd llwybrau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, CAMHS a'r Tîm Niwroddatblygiadol, gan gynnwys sefydlu model trosglwyddo ar ôl ymyriad dwys.

### Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

Dros gyfnod o 6 mis, roedd cyfanswm cronnol yr achosion yn 35. Mae'r mathau o waith a gwblhawyd yn cynnwys: gwaith pontio i/rhwng lleoliadau, asesiadau manwl i ategu sefydlogrwydd lleoliadau a sgrinio am gymorth arall megis Therapi Chwarae.

Mae'r elfen seicolegol wedi arwain at well dealltwriaeth o'r hyn sy'n cymell plant i ymddwyn mewn modd arbennig, a llwyddwyd i deilwra dulliau yn unol â'r ddealltwriaeth honno. Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn deall achosion yn well ac mae ganddynt fwy o hyder "*i allu gwneud cynnydd a bod yn glir o ran yr hyn y gall fod ei angen – ymyriad CAMHS/gwaith siwrnai bywyd/deall ymddygiadau ac ymatebion a sut gall gofalwyr maeth ddeall a llywio'u hymatebion ymhellach.*" Roedd 100% o'r rhai a gymerodd ran yn yr hyfforddiant a gyflwynwyd gan y seicolegydd yn teimlo eu bod yn fwy hyddysg yn y maes, eu bod wedi dysgu sut i roi dull empathig ar waith ar gyfer ymdrin â'r mater, a'u bod yn gwybod sut i geisio rhwystro'r sefyllfa rhag gwaethygu.

**"Mae'r prosiect wedi cynnig cipolwg gwell inni ar y modd rydyn ni'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc yn ogystal â gallu archwilio gwahanol strategaethau a gwahanol lefelau o gymorth. Mae wedi cryfhau ein cysylltiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol ac mae wedi cynnig man mwy myfyriol i archwilio meysydd anghenion a'r modd rydyn ni'n rheoli ein pryderon mewn ffordd fwy therapiwtig."**

## CIPOLWG AR RANBARTH

Rhanbarth: **Gorllewin Cymru**

Prosiect: **Gwasanaeth ar Ffiniau Gofal**

Mae'r prosiect hwn yn cynnig ymyriadau strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn galluogi teuluoedd i ddatblygu sgiliau datrys problemau, meithrin cadernid ac esgor ar newid cadarnhaol a chynaliadwy yn eu hymddygiad. Mae staff hyfforddedig a phrofiadol yn ymateb yn ddi-oed i blant a theuluoedd mewn argyfwng, gan eu galluogi i oresgyn ac ymdrin â'r anawsterau a fu bron â chwalu'r teulu, ynghyd ag atal y sefyllfa rhag gwaethygu ac osgoi atgyfeirio'r teulu at achosion gofal.

Pa un ai'r nod yw cyfyngu ar y risg y caiff y plant eu symud i ofal, ymdrin ag amryfal anghenion cymhleth ar draws unedau teuluol, neu gynorthwyo i ailuno teuluoedd ar ôl gorchymyn gofal, mae'r prosiect hwn wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflawni atebion arloesol a llawn effaith a fydd yn diwallu'r anghenion a bennir, gan anelu at wella bywydau'r plant a'r teuluoedd o dan sylw.

Mae pob sir yn cyfrannu elfennau at y prosiect fel y gellir eu rhoi ar waith ar lefel ranbarthol. Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r prosiect yn gweithio gyda chydweithwyr i ymdrin â'r cylch gofal sy'n bodoli rhwng cenedlaethau. Cynhelir dadansoddiad clinigol o hanes, cryfderau ac anawsterau teuluoedd, ynghyd â dadansoddiad o themâu cyffredin, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â ffactorau sy'n ymwneud â chenedlaethau.

Mae'r cydberthnasau a ddatblygwn yn helpu i chwalu'r rhwystrau, gan arwain at ddull mwy gonest o ymdrin â'r materion, a hefyd maent yn cydnabod cryfderau teuluoedd a'r pethau a gyflawnir ganddynt, gan ein galluogi i ddathlu hyn oll mewn ffordd ystyrlon.

Yn Sir Benfro, mae'r prosiect yn cynnig cymorth dwys gyda hyfforddiant mewnol a goruchwyliaeth gan gymheiriaid i gynorthwyo teuluoedd i adeiladu ar eu cryfderau er mwyn gwella cydberthnasau a chynyddu rhwydweithiau cymorth fel y gall y plant aros gartref (neu ddychwelyd i'w cartref) yn ddiogel o fewn eu rhwydwaith teuluol.

Yng Ngheredigion, mae Gweithiwr Cymorth ar Ffiniau Gofal yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â Thimau Asesu Plant a Theuluoedd, Diogelu, Addysg, y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gan weithredu fel un pwynt cyswllt. O fewn y sir, datblygwyd darpariaeth Cam-i-fyny/Cam-i-lawr Ar Ffiniau Gofal sydd bellach wedi'i sefydlu ac yn cael ei phrofi fel enghraifft o arfer da.

## Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

**Sir Gaerfyrddin:** Rhwng Hydref 22 a Mawrth 23, cynorthwywyd, **31** o deuluoedd ac **84** o blant. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddwyd gofal i 9 o blant a llwyddwyd i adsefydlu 1 yn ei gartref.

- Cafodd **13** o blant drefniadau gyda theuluoedd a chyfeillion.
- Cafodd **8** o blant eu haduno â'u teuluoedd biolegol.
- Llwyddwyd i gadw **51** o blant gyda'u teuluoedd biolegol.
- Mae teulu sy'n cynnwys 6 o blant wedi gadael y broses cyn-achosion ac mae enwau'r plant wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn dilyn gwaith dwys.

**Sir Benfro:** Yn 2022-23, arhosodd **87%** o blant yn eu rhwydwaith teuluol (neu cawsant eu dychwelyd at eu rhwydwaith teuluol) ar ôl cael cymorth dwys Ar Ffiniau Gofal. Wrth adolygu'r canlyniadau hirdymor ddeuddeg mis ar ôl yr ymyriadau (2021 i 2022), gwelwyd bod **81%** o'r plant yn dal i gael gofal o fewn eu rhwydwaith teuluol.

Yn ôl adborth gan blant a theuluoedd yn Sir Benfro, roeddent yn teimlo eu bod wedi cael cymorth drwy gydol y broses ac wedi creu cydberthnasau gweithio da. Nid oedd y rhieni o'r farn eu bod yn cael eu beirniadu, ac fe wnaethant fwynhau cael rhywun i siarad ag ef – rhywun a oedd yn gwrando o ddifrif arnynt. Roeddynt o'r farn eu bod wedi cael eu cynorthwyo a bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau i wneud penderfyniadau a fyddai'n gwella'r sefyllfa i'w teuluoedd.

Mae'r prosiect yn parhau i wella gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal, gan anelu at lwyddo'n well i bontio'r bwlch rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion yn ogystal â phartneriaid iechyd ac asiantaethau allanol er mwyn i deuluoedd allu cael gafael ar y cymorth iawn ar yr adeg iawn – sef elfen hollbwysig i deuluoedd mewn argyfwng.

## Adref o'r ysbyty

**Lle bo modd, dylid cynnig gofal a chymorth i helpu pobl i aros yn iach gartref. Fodd bynnag, gan gydnabod y bydd angen bob amser i rai pobl gael asesiad/triniaeth acíwt mewn amgylchedd ysbyty, mae'n hanfodol ein bod yn creu model gofal cenedlaethol sy'n helpu pobl i gael eu rhyddhau i wella gartref mor gyflym a diogel â phosibl.**

Isod, ceir manylion am y modd y dyrannwyd y cyllid yn ôl rhanbarthau, gan gynnwys nifer y prosiectau a gyflwynwyd drwy'r cynigion buddsoddi.

| | Dyraniad cyllid | Nifer y prosiectau |
|---|---|---|
| **Cwm Taf Morgannwg** | **£458,765** | **2** |
| **Gwent** | **£3,249,247** | **3** |
| **Gogledd Cymru** | **£9,144,261** | **8** |
| **Powys** | **£610,000** | **6** |
| **Gorllewin Morgannwg** | **£1,894,177** | **4** |
| **Gorllewin Cymru** | **£1,617,353** | **4** |

## CIPOLWG AR RANBARTH

Rhanbarth: **Cwm Taf Morgannwg**

Prosiect: **Rhaglen Rhyddhau o'r Ysbyty**

Nod y rhaglen Rhyddhau o'r Ysbyty yw gwella llif y bobl sy'n gadael yr ysbyty. Drwy leoli cydgysylltwyr rhyddhau mewn ysbytai allweddol, gall pobl fod ar eu hennill drwy allu cael sgwrs lawnach ynglŷn â'u rhyddhau o'r ysbyty yn gynharach yn y broses. Gall hyn helpu i wella'r llif ynghyd â gwella profiadau cleifion a staff clinigol.

Mae'r rhaglen yn gwella dulliau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, gan helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol, yn enwedig ar gyfer achosion cymhleth. Mae'n helpu i gynllunio a chyflymu'r broses ryddhau drwy ymyrryd yn gynnar yn y broses.

Mae atal yn agwedd bwysig ar ethos y rhaglen, ac mae'n cyfeirio ac yn cyfarwyddo unigolion drwy gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ar yr adeg y cânt eu derbyn i'r wardiau, gan ategu gwaith y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref.

### Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

Mae'r prosiect yn rhoi dull mwy rhagweithiol ar waith wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, gan geisio dod o hyd i'r cleifion hynny sydd mewn perygl o 'fynd yn sownd' mewn gofal eilaidd – canlyniad sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar eu gallu i ddychwelyd at fyw'n annibynnol.

Er mwyn gwella llif cleifion sy'n gadael yr ysbyty, mae gofal cymdeithasol angen gwybodaeth gywir ac amserol ynglŷn ag anghenion yr unigolyn yn y gymuned.

Yr wybodaeth hon sy'n galluogi'r rhaglen i ddod o hyd i systemau cymorth. Ambell waith, gall y systemau hyn gynnwys pecyn gofal, ond dro arall efallai mai canfod atebion gan grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a phartneriaid o'r trydydd sector a wneir.

Mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar yr wybodaeth a gyflwynir ynglŷn â'r unigolyn, ynghyd â gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ac a allai gynorthwyo'r unigolyn ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty.

Mae angen i weithwyr cymdeithasol fod yn bresennol yn yr ysbyty er mwyn cyflymu'r broses o ran casglu'r wybodaeth angenrheidiol, yn ogystal â phennu'r potensial ar gyfer adsefydlu yn gynnar, asesu lefel yr angen yn gynnar ac addysgu staff y ward ynglŷn â'r gwasanaethau amrywiol a geir yn y gymuned.

Llwyddodd y prosiect hwn, a'r model Rhaglen Cymorth i Weithwyr, i leihau'n sylweddol yr amser a dreuliodd yr Un Pwynt Mynediad yn mynd ar drywydd gwybodaeth goll gyda wardiau, a cheir tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu ei fod wedi gwella profiad unigolion.

Mae'n amlwg bod y broses o ran rhyddhau pobl o'r ysbyty wedi'i rhoi ar waith mewn modd mwy effeithiol drwy ddefnyddio'r modelau hyn o gymharu â'r sefyllfa pan arferai'r Un Pwynt Mynediad reoli'r broses dros y ffôn.

## Gweithgareddau a ddigwyddodd

- Derbyniwyd **1562** o atgyfeiriadau yn ystod 2022-23.
- Derbyniwyd **1094** o geisiadau am asesiad, a chwblhawyd **100%** o'r ceisiadau hyn (yn yr ysbyty ac yn y gymuned).
- Cynorthwywyd i ryddhau **1538** o unigolion o'r ysbyty.
- Trefnwyd **253** o leoliadau mewn cartrefi preswyl.

## Beth sydd wedi newid i bobl?

- Cynorthwywyd **888** o bobl i symud yn ôl adref.
- Cynorthwywyd **635** o bobl i fyw'n annibynnol.
- Cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â'r 'hyn sy'n bwysig' gyda **2632** o bobl.
- Cynorthwywyd **668** o bobl i wella'u sefyllfa ariannol/cael gafael ar fudd-daliadau.
- Cynorthwywyd **1562** o bobl i gael gafael ar yr wybodaeth, y cyngor a'r canllawiau angenrheidiol.
- Cyfeiriwyd **1538** o bobl at wasanaethau ychwanegol/perthnasol.

Mae'r rhaglen yn ategu cynaliadwyedd gwasanaethau asesu a rheoli gofal yn yr ysbyty/yn y gymuned. Mae wedi cynorthwyo i leihau oedi o ran rhyddhau pobl o'r ysbyty mewn da bryd gan gynnal/lleihau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal a lleihau'r amser a dreulir yn yr ysbyty.

Mae'r gweithwyr cymorth wedi esgor ar ffordd well o reoli llif cleifion a chynnal lefel bresennol y gwasanaeth, gan leihau'r pwysau ar y gymuned/ysbyty.

Mae'r rhaglen ryddhau wedi hwyluso trefniadau gwell o ran rhyddhau pobl o'r ysbyty a hefyd mae wedi hwyluso gwell mynediad at leoliadau parhaol a/neu leoliadau o ddewis.

Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran ymateb i anghenion pobl â phroblemau cymhleth yn yr ysbyty, a hefyd mae wedi bod yn ddefnyddiol i staff wardiau gan sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth o'r radd flaenaf ynglŷn â deddfwriaeth a sefyllfaoedd cymunedol.

## Cipolwg ar ranbarth

Rhanbarth: **Gorllewin Cymru**

Prosiect: **Cymorth Rhyddhau i Ofalwyr**

Caiff y gwasanaeth Cymorth Rhyddhau i Ofalwyr ei gyflwyno gan Wasanaethau Gofalwyr y trydydd sector, a fydd yn cynnig continwwm cymorth i ofalwyr di-dâl er mwyn hwyluso i ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol drwy gynorthwyo'r gofalwr di-dâl a'i gynnwys yn y broses o ryddhau'r sawl y gofelir amdano o'r ysbyty.

Mae sicrhau y caiff cleifion eu rhyddhau'n amserol o ysbytai acíwt a chymunedol nid yn unig yn effeithio ar ofal cleifion a chanlyniadau triniaeth, ond mae hefyd yn cyfrannu at ofal iechyd sy'n seiliedig ar werth a gwell defnydd o adnoddau ariannol ac adnoddau staff drwy gynyddu llif cleifion. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Rhyddhau i Ofalwyr yn esgor ar ganlyniadau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl, gan ategu'r cymorth uniongyrchol a roddir i'r claf yn y gymuned, a bydd y continwwm cymorth i ofalwyr di-dâl yn darparu cymorth di-dor ac integredig cyn i'r claf fynd i'r ysbyty, ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty ac ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Mae'r gwasanaeth yn rhwydweithio'n barhaus gyda staff ysbytai a sefydliadau eraill, e.e. y Gymdeithas Strôc ac Age Cymru, fel y gellir darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r gofalwyr a gynorthwyir. Mae'r swyddog gofalwyr yn cysylltu â gwasanaethau presennol sy'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, gan gynnwys nyrsys, PIVOT yn Sir Benfro a'r Fyddin Las yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili/Ysbyty'r Tywysog Philip. Hefyd, mae Swyddogion Gofalwyr yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr allgymorth Gwybodaeth i Ofalwyr ym mhob sir er mwyn sicrhau y rhoddir arferion gorau ar waith. Rhoddir adroddiadau a diweddariadau i uwch-reolwyr nyrsio.

### Gweithgareddau a ddigwyddodd

- Cynorthwywyd **259** o ofalwyr di-dâl pan ryddhawyd yr unigolion y gofelir amdanynt o'r ysbyty.
- Gwnaed **168** o atgyfeiriadau newydd yn bennaf drwy gyfrwng staff wardiau, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cymdeithasol ac ati.
- Cyflwynwyd **52** o sesiynau hyfforddi Gwerthfawrogi Gofalwyr ac fe'u mynychwyd gan 146 o bobl.

### Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

Yn achos llawer o ofalwyr, ni chânt eu cynnwys wrth gynllunio sut i ryddhau'r sawl y gofelir amdano o'r ysbyty. Fodd bynnag, yn sgil y prosiect hwn, mae llawer mwy o ofalwyr yn cael cymorth uniongyrchol gyda hyn a hefyd ar ôl i'r sawl y gofelir amdano ddychwelyd adref.

Bellach, caiff llesiant gofalwyr ei fesur drwy gyfrwng y gwasanaeth Cymorth Rhyddhau i Ofalwyr. Caiff sgoriau llesiant eu cofnodi ar y dechrau ac ar ôl i'r cymorth ddod i ben. Ym mhob achos, dywedodd y gofalwyr fod eu llesiant wedi gwella oherwydd ymyriadau'r Swyddogion Gofalwyr.

Mae'r gwasanaeth wedi cynorthwyo gofalwyr drwy gydol y broses ryddhau, gan sicrhau bod llais gofalwyr yn cael ei glywed a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y gofalwyr a gynorthwywyd. Erbyn hyn, mae gofalwyr yn gwybod beth yw eu hawliau a pha wasanaethau sydd ar gael, felly gallant barhau â'u dyletswyddau gofalu tra'n cymryd gofal o'u hiechyd a'u llesiant eu hunain.

## Beth sydd wedi newid i bobl?

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu cydberthnasau gweithio cadarnhaol gyda staff allweddol mewn ysbytai ac mae'n enghraifft wych o gydweithio traws-sector. Mae'r Swyddogion Gofalwyr yn aelodau gwerthfawr o'r tîm a chaiff atgyfeiriadau eu hanfon atynt yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen codi ymwybyddiaeth o hyn oll er mwyn gallu canfod gofalwyr cyn gynted â phosibl, ac fel y gellir ymgorffori'r gwasanaeth yn llwyr wrth gynllunio i ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Yn ôl un gofalwr, mae'r atgyfeiriad a wnaed gan y Swyddog Gofalwyr am Asesiad o Anghenion Gofalwr wedi gwella ansawdd ei fywyd. Heb wybodaeth a chymorth y Swyddog Gofalwyr, byddai'r unigolyn wedi cael cryn anhawster i reoli ei rôl ofalu.

Mae llawer o ofalwyr yn gwerthfawrogi help gyda'r broses ryddhau, ac yn ei dro mae hyn yn helpu i leihau'r straen a'r gorbryder a allai ddod i ran y sawl y gofelir amdano. Ceir hefyd gyfleoedd i rwydweithio gyda staff iechyd, staff gofal cymdeithasol a staff y trydydd sector. Caiff y sawl y gofelir amdano fynd adref o'r ysbyty mewn modd amserol gan wybod bod y cymorth angenrheidiol wedi'i drefnu a chan wybod y bydd yn cael cymorth gan ei ofalwr teuluol. Yn ei dro, caiff y gofalwr ei hun gymorth.

**Adborth gan staff rheng flaen a fynychodd sesiynau hyfforddi:**

**“Bydd yn llawer haws adnabod gofalwyr a'u cyfeirio at gymorth.”**

**“Mae hyn wedi fy helpu i ddeall pa gymorth sydd ar gael.”**

**“Gwell ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl, grantiau ac ati. Diolch yn fawr.”**

## Atebion Seiliedig ar Lety

**Mae datblygu llety a all helpu pobl i fyw'n annibynnol pobl a diwallu eu hanghenion gofal a chymorth mewn amgylchedd domestig neu breswyl yn rhan bwysig o'n system iechyd a gofal.**

Isod, ceir manylion am y modd y dyrannwyd y cyllid yn ôl rhanbarthau, gan gynnwys nifer y prosiectau a gyflwynwyd drwy'r cynigion buddsoddi.

| | Cwm Taf Morgannwg | Gwent | Gogledd Cymru |
|---|---|---|---|
| Dyraniad cyllid | £530,000 | £3,736,453 | £1,370,008 |
| Nifer y prosiectau | 2 | 4 | 3 |

## CIPOLWG AR RANBARTH

Rhanbarth: **Gorllewin Cymru**

Prosiect: **Llety Canolradd a Cham-i-lawr**

Mae'r prosiect yn darparu adnoddau staffio a llety pwrpasol i gynorthwyo pobl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty a/neu'r rhai sydd mewn perygl o orfod mynd i'r ysbyty neu i ofal preswyl. Mae'n cynnwys gwelyau mewn, neu gerllaw, lleoliadau gofal preswyl. Mae'r llety a ddarperir gan y prosiect yn galluogi pobl i gael cymorth yn y gymuned yn hytrach na'u bod yn gorfod mynd i'r ysbyty. Hefyd, bydd yn helpu i leihau hyd cyfartalog yr amser a dreulir yn yr ysbyty, yn ogystal â gwella llif cleifion mewn ysbytai. Golyga hyn y bydd modd i ragor o bobl fyw'n annibynnol, ac o'r herwydd bydd rhagor o bobl yn gallu dychwelyd i'w cartrefi, gan leihau lefel y cymorth cartref sydd ei angen.

Yn bennaf, mae'r prosiect yn cynorthwyo pobl hŷn (yn cynnwys pobl â dementia a phobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol) a gofalwyr di-dâl.

**Ceir llety yn y mannau canlynol:**

- Cartref Gofal Preswyl Havenhurst, byngalo 2 ystafell wely.
- Cartref Gofal Preswyl Hillside, 7 o welyau gofal canolradd, byngalo 2 ystafell wely.
- Tŷ Pili Pala (TPP – mae'n rhan o ofal preswyl), 14 o welyau ailalluogi. Cynllun Cam-i-lawr Llanelli ar gyfer pobl ag anghenion Iechyd Meddwl.
- Gwelyau a brynir yn ôl y galw yng nghartrefi preswyl y sector annibynnol ledled Ceredigion.

**Gweithgareddau a ddigwyddodd:**

- Camodd **33%** o unigolion i fyny o Ofal yn y Gymuned.
- Camodd **67%** o unigolion i lawr o'r Ysbyty i TPP.
- Gadawodd **83%** o bobl TPP heb fod angen gofal a chymorth hirdymor.
- Gadawodd **9%** o bobl TPP gan fod angen gofal a chymorth hirdymor.
- Dychwelodd **100%** o bobl i'w cartrefi eu hunain i fyw'n annibynnol – Havenhurst.
- Dychwelydd **60%** o bobl i'w cartrefi eu hunain i fyw'n annibynnol – Hillside.

## Beth sy'n cael ei wneud yn wahanol?

Mae agweddau allweddol y prosiect yn cynnwys:

- Cymorth gan dîm amlddisgyblaethol ac arbenigwyr priodol.
- Canolbwyntio ar ailalluogi er mwyn i bobl allu dychwelyd adref yn ddiogel gan osgoi'r angen i fynd i'r ysbyty yn y dyfodol.
- Darpariaeth arbenigol i bobl ag anghenion iechyd meddwl.
- Mae'r llety byngalo yn cynnwys llawer o dechnoleg gynorthwyol sy'n anelu at gynorthwyo pobl i fyw mor annibynnol â phosibl.
- Mae asesiadau amserol yn galluogi pawb sy'n gysylltiedig â'r gofal i ddweud eu dweud mewn penderfyniadau cynllunio hirdymor.
- Allgymorth ac asesiadau gan Staff Therapi Gartref yn Gyntaf.
- Rhan o lwybr ehangach sy'n canolbwyntio ar unigolion, sef Gartref yn Gyntaf.

## Llwyddiannau i bobl

Mae staff rheng flaen Tŷ Pili Pala yn dweud eu bod yn falch o gael gweithio yno. Mae adborth penodol yn cynnwys y gwerth sy'n perthyn i weithio mewn amgylchedd Tîm Amlddisgyblaethol a gweithio mor agos â therapïau – y farn yw bod hyn yn eithriadol o gadarnhaol. Ceir hyder cynyddol yn y gwasanaeth, a chredir bod y gwasanaeth yn briodol ar gyfer cynllunio a gweithredu gofal hirdymor.

Mae gan reolwyr y cyfleusterau gydberthnasau da â'r tîm, ac maent yn dangos ymddiriedaeth a pharch tuag at y naill a'r llall.

Mae **91%** o gleientiaid TPP yn dychwelyd adref ar ôl cyfnod byr (llai na chwe wythnos) mewn gwely gofal preswyl.

Mae'r prosiect yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad, gan esgor ar ganlyniadau gwell i unigolion ynghyd â lleihau hyd arosiadau a diwrnodau gwely a lleihau'r angen i gomisiynu gofal cymdeithasol.

Mae'r cynllun wedi'i gwneud yn bosibl i asesu cleifion mewn modd amserol. Mae hyn wedi rhoi amser i'r cleifion a'u gofalwyr/teuluoedd ddygymod ag opsiynau realistig ar gyfer anghenion gofal yn y tymor hwy, ynghyd ag amser i ystyried atebion i heriau. I rai pobl sy'n defnyddio'r cynllun, mae'n golygu lle priodol a diogel ar gyfer gofal diwedd oes.

# Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Dysgu a Gwerthuso

## Cymunedau Ymarfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Fel rhan o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sefydlwyd Cymunedau Ymarfer mewn rhai meysydd trawsnewid allweddol, a chânt eu cydweddu â datblygu chwe Model Gofal Integredig.

Mae'r Cymunedau Ymarfer wedi dwyn ynghyd grwpiau o ymarferwyr ar draws sectorau i hybu trafodaethau cynhyrchiol ac annog atebion cydweithredol i oresgyn heriau cyffredin, yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu "glasbrint" cenedlaethol ar gyfer chwe model gofal integredig, a rhoi'r glasbrint hwnnw ar waith.

Rhoddwyd rhaglen y Cymunedau Ymarfer ar waith ym mis Mawrth 2022.

Ar hyn o bryd, mae chwech o Gymunedau Ymarfer ar waith. Maent yn cyfarfod bob deufis ac mae pob un yn canolbwyntio ar faes trawsnewid allweddol a bennir yng nghanllawiau gweithredu cenedlaethol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sef:

- Gofal yn y gymuned
- Gofal a ddarperir drwy gyfrwng technoleg
- Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl
- Adref o'r ysbyty
- Cynorthwyo teuluoedd a NYTH
- Gofal a chymorth seiliedig ar lety.

## Cyfrifoldebau pob Cymuned Ymarfer

- Cynnig fforwm lle gall cydweithwyr ledled Cymru â diddordeb, profiad a chyfrifoldeb yn y maes gyfarfod, cymharu pethau a ddysgir a rhannu arferion da.
- Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu "glasbrint" cenedlaethol ar gyfer modelau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.
- Rhannu pethau a ddysgir yn ehangach gyda chydweithwyr ledled Cymru.

## Llywodraethiant, hwyluso a chyfarfodydd

Caiff Cymunedau Ymarfer eu hwyluso gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Brookes Rhydychen. Mae gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus gontract ar gyfer y rhaglen waith hon dros oes y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Seilir y Cymunedau Ymarfer ar weithdai ar-lein, a ategir gan ddiweddariadau e-bost parhaus a threfniadau rhannu gwybodaeth. Ni chyfyngir ar yr aelodaeth: mae'r holl grwpiau ar agor i ymarferwyr, arweinwyr, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, a dinasyddion yn fwy cyffredinol. Yr unig beth y gofynnwn amdano yw bod gan yr ymarferwyr wybodaeth, profiad neu gyfrifoldeb yn y maes sy'n berthnasol i'r Gymuned Ymarfer.

Yn ystod pob gweithdy, gwahoddir cydweithwyr i rannu astudiaethau achos ac enghreifftiau o heriau lleol mewn fformat 'datrys problemau' dysgu gweithredol.

Mae gan y Cymunedau Ymarfer oddeutu 100 o bobl ar eu rhestrau postio – gweithwyr proffesiynol yn bennaf, sydd â chyfrifoldeb gweithredol neu strategol mewn Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol, sefydliadau preifat neu sefydliadau'r trydydd sector, ynghyd â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr di-dâl.

## Cyfarfod "Uwchgynhadledd" 2023

Ym mis Mai 2023, cynhaliwyd cyfarfod 'Uwchgynhadledd' a oedd yn cynnwys cydweithwyr o'r chwe Chymuned Ymarfer a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Yn yr Uwchgynhadledd, edrychwyd yn fanwl ar bolisïau cenedlaethol datblygol a pha elfennau pwysig y dylid eu cynnwys yn natblygiad a chynnwys y modelau gofal integredig cenedlaethol arfaethedig.

## Y cynnydd hyd yn hyn

### Cymuned Ymarfer Gofal yn y Gymuned

Mae a wnelo'r Gymuned Ymarfer hon â thrawsnewid gwasanaethau iechyd, gofal a llesiant yn y gymuned sy'n 'seiliedig ar leoedd', yn ogystal â helpu i osgoi derbyniadau i'r ysbyty/gofal yn yr ysbyty drwy roi egwyddorion 'Cymru Iachach' ar waith, er mwyn sicrhau gofal mwy effeithiol, di-dor a chydgysylltiedig mewn cymunedau lleol ar draws meysydd fel gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned a gofal cymdeithasol.

- Mae'r Gymuned Ymarfer yn gysylltiedig â'r Rhaglen Strategol Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r Rhaglen Seilwaith Cymunedol, yn ogystal â gweithgareddau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ac mae wedi cyfrannu at adnoddau a gynhyrchwyd ganddynt.
- Mae'r Gymuned Ymarfer wedi archwilio'r heriau o ran gweithredu hybiau integredig yn y gymuned ac mae wedi llunio papur trafod sy'n ystyried sut gellir rhoi egwyddorion ymarfer gorau ar waith yn y maes hwn fel rhan o fodel gofal integredig yn y dyfodol.
- Mae wedi archwilio pa nodweddion y gall fod eu hangen o du model ymarfer integredig ar gyfer gofal yn y gymuned.

### Cymuned Ymarfer Gofal a Ddarperir drwy gyfrwng Technoleg

Mae'r Gymuned Ymarfer hon yn cynnig cyfle i bobl sydd ar flaen y gad o ran datblygu a darparu iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned a ddarperir drwy gyfrwng technoleg – hynny yw, cynnig cyfle iddynt rannu pethau a ddysgir ac arferion gorau, yn ogystal â chreu adnoddau a fydd yn helpu eraill i wireddu potensial y maes hwn yn y dyfodol.

Mewn perthynas â rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae'r Gymuned Ymarfer wedi archwilio rhai heriau allweddol sy'n wynebu gofal a ddarperir drwy gyfrwng technoleg ac mae wedi pennu sawl maes lle gallai adnoddau ac arwain agweddau fod yn werthfawr yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Cofnodi profiad bywyd pobl o ran gweithio gyda thechnoleg.
- Cipio data a rhannu gwybodaeth.
- Ymatebolrwydd cwmnïau technoleg i anghenion a dewisiadau defnyddwyr.
- Safoni dulliau ar gyfer ymchwilio i dechnoleg a gwerthuso technoleg.
- Rôl y gofrestr genedlaethol ar gyfer prosiectau a ddarperir drwy dechnoleg.

### Cymuned Ymarfer Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl

Mae a wnelo'r Gymuned Ymarfer hon â'r ffordd orau o lunio a darparu cymorth iechyd emosiynol ac iechyd meddwl i bobl o bob oed drwy Gymru.

Mae'r Gymuned Ymarfer wedi creu cysylltiadau cryf gyda chydweithwyr yng Nghydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru ac AaGIC ac mae wedi cynnig cymorth 'profi syniadau' i'w gwaith yn y maes hwn, yn ogystal â rhannu enghreifftiau o arferion da a datblygol.

Mae'r Gymuned Ymarfer wedi dechrau cyfrannu at syniadau cenedlaethol ynglŷn â modelau gofal integredig drwy ystyried yn ofalus drefniadau ar gyfer mannau 'un pwynt mynediad' gogyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Mae wedi llunio papur trafod sy'n cynnig egwyddorion allweddol a ddylai lywio'r gwaith o greu a datblygu mannau 'un pwynt mynediad' ledled Cymru.

### Cymuned Ymarfer Adref o'r Ysbyty

Mae'r Gymuned Ymarfer hon wedi'i sefydlu ers amser maith, ac yn 2021 lluniodd ganllawiau cenedlaethol yn ymwneud â 'Rhyddhau i Adfer yna Asesu'.

Mae'n cynorthwyo i weithredu a datblygu'r gwaith hwn ar fodelau arferion da o ran darparu gwasanaethau effeithiol rhwng yr ysbyty a'r cartref, a hefyd mae'n ategu rhaglenni cenedlaethol sy'n ymwneud ag Adref o'r Ysbyty a'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng a Rhaglen Gofal Heb ei Drefnu Uned Gyflawni'r GIG.

- Mae'r Gymuned Ymarfer yn gweithio'n agos gyda rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, gan gynnig adborth ar adnoddau datblygol a datblygiadau a gynlluniwyd, ac mae'n cynorthwyo i ddosbarthu ac ymgorffori arferion da.
- Mae cydweithwyr yn y Gymuned Ymarfer wedi archwilio sut gellir sicrhau y caiff dull 'Yr Hyn sy'n Bwysig' – sef rhywbeth sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth a rhywbeth sy'n un o ymrwymiadau allweddol 'Cymru Iachach' – ei gyflawni'n ymarferol. Maent wedi llunio adroddiad i helpu partneriaid lleol a rhanbarthol i ddatblygu dulliau cadarnach o ymdrin â thrafodaethau 'Yr Hyn sy'n Bwysig' er mwyn sicrhau eu bod yn elfennau craidd o'r broses Rhyddhau i Adfer yna Asesu/Adref o'r Ysbyty, ac i archwilio rhai heriau a allai wynebu partneriaid ledled Cymru wrth roi'r elfennau hyn ar waith.

### Cymuned Ymarfer Cynorthwyo Teuluoedd a NYTH

Mae'r gymuned ymarfer Cynorthwyo Teuluoedd a NYTH/NEST yn defnyddio'r gwaith helaeth a wnaed ar y fframwaith NYTH/NEST dros y blynyddoedd diweddar mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae a wnelo'r gymuned ymarfer â datblygu model gofal integredig cenedlaethol ar gyfer cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel. Mae'n berthnasol i amrywiaeth eang o gydweithwyr sy'n gysylltiedig â gwaith yn ymwneud â gwasanaethau help cynnar, cymorth i deuluoedd, iechyd meddwl, lles, trais domestig, camddefnyddio sylweddau, ar ffiniau gofal, amenedigol, pontio iechyd meddwl, addysg, chwarae, gwaith ieuenctid, chwaraeon, diogelu a gofal therapiwtig ar hyd a lled Cymru.

### Cymuned Ymarfer Gofal a Chymorth Seiliedig ar Lety

Gan weithio gyda'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, mae'r Gymuned Ymarfer hon yn archwilio trefniadau a all gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol a diwallu anghenion gofal a chymorth mewn amgylchedd domestig neu breswyl i bobl o bob oedran. Er mwyn gallu darparu'r model gofal hwn, bydd yn hanfodol creu cysylltiadau â darparwyr tai, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr gofal preswyl, ynghyd â phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys rhai a all gynorthwyo i addasu cartrefi. Gall cydweithwyr rannu gwybodaeth a syniadau, helpu'r naill a'r llall i fynd i'r afael â materion dyrys, a chyfrannu at fodel gofal integredig cenedlaethol yn y maes hwn. Mae a wnelo'r Gymuned Ymarfer â chynorthwyo'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, gan gynnwys prosiectau gwella ymarfer a defnyddio'r rhaglen gyfalaf.

## Defnyddio Theori Newid i lywio prosesau adrodd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Gan ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion yn adroddiad gwerthuso terfynol y Gronfa Gofal Integredig, cytunwyd ar fframwaith canlyniadau fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r fframwaith hwn yn pennu dau ganlyniad lefel uchel sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer pob un o'r chwe Model Gofal. Caiff y fframwaith ei ategu gan system adrodd fanwl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a fydd yn galluogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (a Llywodraeth Cymru) i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ansoddol o sylwedd ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Drwy wneud hyn, bydd modd adrodd y stori 'sydd wrth wraidd' data ansoddol y rhanbarthau, fel y gellir cael darlun clir o'r newid systemau a fydd yn arwain at esblygu'r Modelau Gofal newydd. Drwy ddefnyddio 'Theori Newid', bydd modd defnyddio data fel ffordd o adeiladu haen o dan y systemau Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau safonol sydd eisoes wedi ennill eu plwyf.

Drwy ddefnyddio'r dull hwn, bydd modd inni ddeall beth yn union sydd ei angen er mwyn i wasanaeth neu ymyriad weithio'n effeithiol. Hefyd, bydd yn gwella gwaith gwerthuso drwy ei gwneud yn bosibl i fesur cynnydd tuag at gyflawni nodau tymor hwy ein Modelau Gofal.

Rhoddir mapiau syml sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel rhan o'u dogfennau adrodd chwe-misol. Seilir y rhain ar fodel 'Matter of Focus': (Cartref OutNav, Matter of Focus (matter-of-focus.com) – defnyddir y mapiau hyn ochr yn ochr ag Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau i gasglu data ansoddol a llunio adroddiadau.

Mae yna lawer o fanteision yn perthyn i fabwysiadu'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

- Mae'n cynnig ffordd glir a hygyrch o ddangos y broses newid fel mae'n berthnasol i brosiectau/gwasanaethau/modelau gofal a hefyd o ran newid cymdeithasol ehangach: cydnabyddir bod gwneud hyn wedi bod yn waith heriol. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn bosibl i ddangos y newid mewn ffordd gynyddol (yn hytrach nag mewn ffordd syml a llinol).
- Mae'n hollti canlyniadau yn lefelau gwahanol: mae hyn yn helpu i gyfleu systemau newid cymhleth sy'n ategu gwaith seiliedig ar bobl o ran ymatebion, gwybodaeth a sgiliau, newidiadau mewn ymddygiad ac arferion er enghraifft, ynghyd â newid cymdeithasol yn y tymor hwy.
- Mae'n arwain at gysyniadoli 'dysgu' mewn modd ehangach, h.y. cynnwys gwybodaeth am y pethau na wnaethant weithio, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar y pethau a wnaeth weithio.
- Mae'n ategu strategaethau adrodd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau drwy helpu i ddangos sut mae'r prosiectau a'r modelau gofal yn gwneud gwahaniaeth drwy adrodd stori'r siwrnai/siwrneiau o dan sylw.

Gellir gweld tabl Fframwaith Canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Atodiad 1.

# Gwerthusiad Cenedlaethol

## Y broses werthuso

Ym mis Mawrth 2023, dyfarnwyd contract ar gyfer cynnal Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol – contract sy'n werth mwy na £1m dros 5 mlynedd. Caiff y gwaith gwerthuso ei gynnal gan bartneriaeth o dan arweiniad Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC), a leolir ym Mhrifysgol De Cymru, ac mae'r rhaglen waith dair blynedd yn drefniant cydweithredu rhwng Prifysgol De Cymru, Prifysgol Abertawe ac Ymchwil Old Bell 3, gyda chymorth gan economegwyr iechyd oddi mewn i Gymru.

Bwriad y rhaglen waith yw cynnig gwerthusiad annibynnol, trylwyr a chynhwysfawr a fydd yn asesu nodau, dulliau gweithredu ac effaith y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Y nod yw deall effaith y gwahanol fodelau gofal, ynghyd ag ymchwilio i gostau a buddion economaidd y modelau hynny ac i ba raddau maent yn cyflawni'r canlyniadau iawn i bobl. Comisiynwyd yr astudiaeth am dair blynedd, ond efallai y bydd yn cael ei hymestyn am bedwaredd flwyddyn.

Bydd y gwerthusiad yn dangos sut ac ym mha ffyrdd mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi cael effaith gadarnhaol ar grwpiau poblogaeth sy'n flaenoriaeth i'r gronfa, drwy fynegi'n glir y newid yr arweiniwyd ato drwy weithredu'r gronfa, gan gynnwys gwybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â pham mae rhai agweddau wedi bod yn llwyddiannus neu'n llai llwyddiannus, a sut aethpwyd ati i oresgyn neu ymdrin â heriau.

## Llywodraethiant

Caiff y rhaglen werthuso ei chefnogi gan Grŵp Llywio a Grŵp Cyfeirio Arbenigol, ac yn ddiweddar datblygwyd grŵp cydlunio defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a dinasyddion. Bydd tîm yr astudiaeth yn cael ei gefnogi a'i herio gan y Grŵp Llywio a'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol – bydd pob grŵp yn cyfarfod ddwywaith neu dair y flwyddyn.

## Gweithredu Fframwaith NYTH/NEST

Nod fframwaith NYTH/NEST yw creu dull system gyfan o ymdrin â gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant i fabanod, plant a phobl ifanc.[1] Mae gweithredu fframwaith NYTH/NEST yn ysgogiad sylfaenol i'r holl waith a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol mewn perthynas â babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gwnaed cynnydd sylweddol o ran rhoi'r fframwaith ar waith, gan gynnwys:

- Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio'n ôl cynlluniau gweithredu rhanbarthol NYTH/NEST.
- Llunnir adroddiadau blynyddol am gynnydd drwy ddefnyddio offeryn hunanasesu a gweithredu NYTH/NEST, sydd wrthi'n cael ei gydgynhyrchu a'i dreialu ar hyn o bryd.
- Cydgynhyrchwyd a datblygwyd hyfforddiant NYTH/NEST a hawliau plant ar lefel genedlaethol er mwyn cynorthwyo i'w roi ar waith yn rhanbarthol.
- Dogfen astudiaethau achos Nyth 'ar waith' er mwyn cynorthwyo i rannu arferion da.[2]

1 Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad | LLYW.CYMRU
2 Prosiectau arfer da sy'n defnyddio fframwaith NYTH/NEST: astudiaethau achos | LLYW.CYMRU

# Blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn 2 (2023-24)

Mae blwyddyn gyntaf y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi bod yn flwyddyn bontio i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, wrth inni gyfuno ffrydiau cyllido ar wahân i gydweddu adnoddau'n well, er mwyn inni allu esgor ar yr effaith fwyaf a lleihau'r baich gweinyddol.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer 2023-24 yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hyd yn hyn. Er mwyn inni allu cynnal y momentwm a gwneud y gorau o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, byddwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. **Adolygu'r holl brosiectau** er mwyn sicrhau y byddant yn parhau i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y priod ranbarthau, gan gadw at ofynion y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'i fframwaith canlyniadau.
2. **Datblygu ymhellach y broses o ran symud** tuag at gynlluniau gwasanaeth a phrosiectau rhanbarthol mwy cyson.
3. **Gwella lefel y data ansoddol** a gyflwynir a dwyn ynghyd y 'stori newid' drwy gyfrwng gwaith ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar unigolion dros oes y prosiect.
4. **Gwella'r modd y caiff data ansoddol am berfformiad ei gipio** fel y gallwn ddeall yr effaith yn well a dwyn cymariaethau ar draws prosiectau a rhanbarthau.
5. **Gwella gwaith adrodd ar lefel modelau gofal** er mwyn dangos sut mae'r prosiectau gyda'i gilydd yn cyfrannu at ddatblygu ac ymgorffori'r chwe model gofal integredig cenedlaethol.
6. **Gofynion o ran arian cyfatebol** a sefydlogrwydd ariannol prosiectau prif ffrwd y tu hwnt i oes y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.
7. Bydd **rhannu arferion gorau** a phethau a ddysgir yn parhau i fod yn agwedd allweddol ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Bydd gan y Cymunedau Ymarfer rôl hollbwysig o ran siapio'r Modelau Gofal.
8. **Datblygu manylebau cenedlaethol** ar gyfer ein modelau gofal a rhai elfennau allweddol.

# Atodiad 1: Fframwaith Canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

## Tabl 1: Canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Cyd-destun:**

- Dylanwadu ar newid systemau ac ysgogi newid systemau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Datblygu seilwaith cydlynol ac integredig.
- Datblygu a chyflawni chwe model gofal cenedlaethol.
- Ymgorffori modelau gofal newydd mewn cymunedau.

| **Canlyniadau Lefel Uchel y Model Gofal** | **Dangosyddion ar gyfer pob Model Gofal** *(Gallant fod yn ansoddol ac yn feintiol, ond gellir disgwyl y byddwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion ansoddol ym mhedwerydd pedrant yr Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau)* | **Dulliau Mesur Perfformiad** *(Lefel grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth) Yn nhrydydd pedrant y broses adrodd Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, disgwyliwn weld y gwahaniaeth a wnaed i'r grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth: Faint y gwnaethom ei wneud?* | **Fframweithiau a Dulliau Mesur Perthnasol (nid yw'r rhestrau'n hollgynhwysfawr)** |
|---|---|---|---|
| **Model gofal: Gofal yn y gymuned: atal a chydgysylltu cymunedol** | | | |
| 1. Mae anghenion llesiant pobl yn gwella drwy gael gafael ar atebion cydgysylltiedig yn y gymuned. | • Ceir amrywiaeth o gyfleoedd addas i sicrhau y cânt eu cysylltu â'u grwpiau poblogaeth penodol â blaenoriaeth.<br>• Tystiolaeth bod y cyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau yn cael ei ddefnyddio.<br>• Tystiolaeth y defnyddir sefydliadau gwerth cymdeithasol ar gyfer cydgysylltu cymunedol.<br>• Dewis o weithgareddau i ategu llesiant, rhai digidol a rhai wyneb yn wyneb, drwy gyfrwng 'un drws' (e.e. hybiau integredig yn y gymuned, datblygu clwstwr carlam).<br>• Profiadau o ganlyniadau llesiant gwell i bobl. | • Yn achos pobl ag anghenion gofal a chymorth, cynnydd yn y nifer a'r ganran sy'n cael ac yn defnyddio gwasanaethau lle darperir atebion yn y gymuned.<br>• Yn achos pobl ag anghenion gofal a chymorth, cynnydd yn y nifer a'r ganran sy'n cael ac yn defnyddio gwasanaethau sy'n ategu'r llwybr Rhyddhau i Adfer yna Asesu 0.<br>• Lleihad yn nifer a chanran y bobl a gaiff eu haildderbyn i'r ysbyty.<br>• Darparwyd nifer o weithgareddau newydd gan y sector gwerth cymdeithasol (Adran 16[3]) i grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth. | • Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc a Gofalwyr Di-dâl – metrigau gofalwyr oedolion a gofalwyr ifanc).<br>• Data gweithgareddau a pherfformiad y GIG (e.e. PROMS/PREMS).<br>• Arolwg Cenedlaethol Blynyddol.<br>• Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>• Dulliau Mesur Perfformiad Lefel Uchel y Cynllun Dementia (Atodiad 3) cynllun-gweithredu-cymru-ar-gyfer-dementia.pdf (llyw.cymru).<br>• Fframwaith adrodd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. |
| 2. Mae atebion lleol sy'n ymwneud ag atal ac ymyrraeth gynnar yn cynorthwyo pobl i osgoi ymyriadau uwchgyfeirio ac ymyriadau argyfwng. | • Tystiolaeth bod gweithgareddau ac atebion lleol yn atal ymatebion uwchgyfeirio ac ymatebion argyfwng o du iechyd a gofal cymdeithasol.<br>• Tystiolaeth o allu cael gafael yn rhwydd ar atebion atal ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned. | • Lleihad yn nifer a chanran y bobl sydd angen ymyriadau argyfwng yn sgil lleihad yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau cymdeithasol a darpariaethau iechyd arbenigol.<br>• Lleihad yn nifer a chanran y derbyniadau i'r ysbyty heb eu cynllunio. | |

3 Mae Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn diffinio sefydliadau gwerth cymdeithasol fel sefydliadau nid-er-elw megis mentrau'r trydydd sector, mentrau o dan arweiniad defnyddwyr, mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.

| **Canlyniadau Lefel Uchel y Model Gofal** | **Dangosyddion ar gyfer pob Model Gofal**<br>*(Gallant fod yn ansoddol ac yn feintiol, ond gellir disgwyl y byddwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion ansoddol ym mhedwerydd pedrant yr Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau)* | **Dulliau Mesur Perfformiad**<br>*(Lefel grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth) Yn nhrydydd pedrant y broses adrodd Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, disgwyliwn weld y gwahaniaeth a wnaed i'r grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth: Faint y gwnaethom ei wneud?* | **Fframweithiau a Dulliau Mesur Perthnasol (nid yw'r rhestrau'n hollgynhwysfawr)** |
|---|---|---|---|
| **Model gofal: Gofal yn y gymuned: gofal cymhleth yn nes at y cartref** | | | |
| 1. Caiff pobl eu cynnwys i raddau mwy wrth benderfynu ble y byddant yn byw wrth gael gofal a chymorth. | • Tystiolaeth bod trafodaethau ynglŷn â'r 'Hyn sy'n bwysig' yn cael eu cynnal.<br>• Profiadau cadarnhaol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â ble y caiff gofal a chymorth ei ddarparu.<br>• Gwaith cynllunio integredig ar gyfer datblygu amrywiaeth hyblyg o opsiynau i ddiwallu anghenion pobl. | • Yn achos pobl ag anghenion gofal a chymorth, cynnydd yn y nifer a'r ganran sy'n cael trafodaethau ynglŷn â'r 'Hyn sy'n bwysig.<br>• Yn achos pobl ag anghenion gofal a chymorth, cynnydd yn y nifer a'r ganran sy'n fodlon eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. | • Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc a Gofalwyr Di-dâl – metrigau gofalwyr oedolion a gofalwyr ifanc).<br>• Y chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng: Nod 3 – dewisiadau amgen sy'n ddiogel yn glinigol yn lle derbyn pobl i'r ysbyty.<br>• Data gweithgareddau a pherfformiad y GIG (e.e. PROMS/PREMS).<br>• Arolwg Cenedlaethol Blynyddol.<br>• Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>• Dulliau Mesur Perfformiad Lefel Uchel y Cynllun Dementia (Atodiad 3).<br>• Fframwaith adrodd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. |
| 2. Mae pecynnau gofal a chymorth cymhleth yn llwyddo'n well i ddiwallu anghenion pobl a chânt eu darparu yn y cartref neu'n nes ato. | • Defnyddir cymorth a ddarperir drwy gyfrwng technoleg yn y cartref neu'n nes at y cartref i hybu annibyniaeth.<br>• Tystiolaeth a phrofiad o ddarpariaethau nid-er-elw.<br>• Ansawdd profiad pobl o ran darparu a derbyn pecynnau gofal a chymorth. | • Yn achos pobl ag anghenion gofal a chymorth, cynnydd yn y nifer a'r ganran sy'n cael gafael ar ddewisiadau amgen sy'n ddiogel yn glinigol, yn hytrach na'u bod yn cael eu derbyn i'r ysbyty.<br>• Cynnydd yn nifer a chanran y pecynnau gofal a chymorth a ddarperir yn y cartref neu'n nes ato.<br>• Nifer a chanran y bobl sy'n defnyddio cymorth a ddarperir drwy gyfrwng technoleg.<br>• Cynnydd yn nifer a chanran y bobl sy'n fodlon â'u pecyn gofal a chymorth.<br>• Yn achos pobl ag anghenion gofal a chymorth, cynnydd yn y nifer a'r ganran sy'n cael gafael ar wasanaethau sy'n darparu cymorth gan y sector gwerth cymdeithasol nid-er-elw (Adran 16 – gweler y diffiniad: troednodyn ar dudalen 8). | |

| **Canlyniadau Lefel Uchel y Model Gofal** | **Dangosyddion ar gyfer pob Model Gofal** *(Gallant fod yn ansoddol ac yn feintiol, ond gellir disgwyl y byddwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion ansoddol ym mhedwerydd pedrant yr Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau)* | **Dulliau Mesur Perfformiad** *(Lefel grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth) Yn nhrydydd pedrant y broses adrodd Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, disgwyliwn weld y gwahaniaeth a wnaed i'r grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth: Faint y gwnaethom ei wneud?* | **Fframweithiau a Dulliau Mesur Perthnasol (nid yw'r rhestrau'n hollgynhwysfawr)** |
|---|---|---|---|
| **Model gofal: Hybu iechyd a llesiant emosiynol da** | | | |
| 1. Caiff pobl eu cynorthwyo'n well i gymryd rheolaeth dros eu bywydau a'u llesiant. | • Tystiolaeth bod unigolion yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau ac yn gallu ymgysylltu ag amrywiaeth o wasanaethau sy'n darparu cymorth ar gyfer iechyd a llesiant emosiynol.<br>• Profiadau cadarnhaol o ran darparu a defnyddio gwasanaethau sy'n cefnogi iechyd a llesiant emosiynol pobl. | • Lleihad yn nifer a chanran y bobl sy'n teimlo'n unig ac yn ynysig.<br>• Cynnydd (o ran nifer a chanran) yn sgôr llesiant meddyliol cymedrig plant yng Nghymru WWW.statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Well-being/strengthsanddifficultiesquestionnaire.<br>• Nifer a chanran y plant a phobl ifanc sy'n teimlo bod ganddynt berthynas dda ag oedolion dibynadwy.<br>• Nifer a chanran y plant a phobl ifanc **nad** oes angen eu hatgyfeirio ymlaen ar ôl cwblhau sesiynau cwnsela.<br>• Cynnydd yn y nifer o blant a phobl ifanc sy'n cael mynediad at weithgareddau eraill (e.e. gweithgareddau ieuenctid a chwarae), gan olygu nad ydynt angen ychwaneg o gymorth. | • Fframwaith Canlyniadau Iechyd Meddwl.<br>• Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).<br>• Y chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng: Nod 4 – ymateb cyflym mewn argyfwng iechyd corfforol neu feddyliol.<br>• NYTH/NEST Fframwaith gan gynnwys Dim Drws Anghywir.<br>• sCAMHS (Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed).<br>• Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc a Gofalwyr Di-dâl – metrigau gofalwyr oedolion a gofalwyr pobl ifanc).<br>• Arolwg Cenedlaethol Blynyddol.<br>• Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>• Dulliau Mesur Perfformiad Lefel Uchel y Cynllun Dementia (Atodiad 3).<br>• Fframwaith adrodd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.<br>• Blaenoriaethau'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.<br>• Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN). |
| 2. Mae gan bobl well sgiliau, gwybodaeth a hyder i fod yn annibynnol o ran adnabod eu hanghenion llesiant. | • Tystiolaeth o weithgarwch sy'n ddigonol neu'n briodol o ran galluogi pobl i fod yn annibynnol a chynnal eu llesiant.<br>• Profiad cadarnhaol o ran bod pobl yn teimlo y gallant adnabod eu hanghenion llesiant ac ymdrin â nhw. | • Nifer a chanran y bobl sy'n dweud eu bod yn cael eu meithrin a'u grymuso a'u bod yn teimlo'n ddiogel.<br>• Nifer a chanran y bobl sy'n dweud eu bod yn mynd ati i geisio help a chymorth ar gyfer eu hiechyd emosiynol a meddyliol.<br>• Nifer a chanran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu canfod a chysylltu â gwasanaethau addas (ar yr adeg iawn) i gael help a chymorth gyda'u hiechyd emosiynol a meddyliol. | |

| **Canlyniadau Lefel Uchel y Model Gofal** | **Dangosyddion ar gyfer pob Model Gofal**<br>*(Gallant fod yn ansoddol ac yn feintiol, ond gellir disgwyl y byddwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion ansoddol ym mhedwerydd pedrant yr Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau)* | **Dulliau Mesur Perfformiad**<br>*(Lefel grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth) Yn nhrydydd pedrant y broses adrodd Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, disgwyliwn weld y gwahaniaeth a wnaed i'r grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth: Faint y gwnaethom ei wneud?* | **Fframweithiau a Dulliau Mesur Perthnasol (nid yw'r rhestrau'n hollgynhwysfawr)** |
|---|---|---|---|
| **Model gofal: Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal** | | | |
| 1. Mae teuluoedd yn cael gwell cymorth i'w helpu i aros gyda'i gilydd. | • Tystiolaeth o weithredu cymdeithasol cyfannol ac ymddygiadau cymdeithasol cadarnhaol.<br>• Mae teuluoedd yn meithrin sgiliau 'parod at y dyfodol' ac yn teimlo bod y sgiliau hynny'n eu helpu i aros gyda'i gilydd. | • Lleihad o ran nifer a chanran yn y gyfradd o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed (Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol). | • Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (metrigau Plant a Phobl Ifanc).<br>• Fframwaith NYTH/NEST.<br>• Cwnsela Ysgolion Awdurdodau Lleoln.<br>• Blaenoriaethau'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc*.<br>• Dylai plant a phobl ifanc gael y cymorth angenrheidiol i aros gyda'i gilydd neu ddychwelyd at ei gilydd gyda'u teuluoedd, os oes modd. |
| 2. Mae cymorth therapiwtig yn gwella ac yn cyfoethogi llesiant plant â phrofiad o fod mewn gofal. | • Tystiolaeth bod cymorth therapiwtig yn cael ei ddarparu yn unol â fframwaith NYTH.<br>• Profiad o wasanaethau'n cael eu darparu mewn modd cydlynol, cydgysylltiedig a chydweithredol. | • Nifer a chanran y plant a gafodd wasanaethau cwnsela yn 2020-21 – 2021-22 Cwnsela ar gyfer plant a phobl ifanc: Medi 2019 i Awst 2020 I LLYW.CYMRU.<br>• Nifer a chanran y plant sy'n aros am asesiad Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol.<br>• Nifer a chanran y plant sy'n aros am CAMHS Arbenigol.<br>• Nifer a chanran yr atgyfeiriadau misol ar gyfer asesiadau Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol WWW.statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Mental-Health/Mental-Health-Measure/Part-1/referralsforalpmhssassessment-by-lhb-month. | |

| **Canlyniadau Lefel Uchel y Model Gofal** | **Dangosyddion ar gyfer pob Model Gofal** *(Gallant fod yn ansoddol ac yn feintiol, ond gellir disgwyl y byddwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion ansoddol ym mhedwerydd pedrant yr Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau)* | **Dulliau Mesur Perfformiad** *(Lefel grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth) Yn nhrydydd pedrant y broses adrodd Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, disgwyliwn weld y gwahaniaeth a wnaed i'r grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth: Faint y gwnaethom ei wneud?* | **Fframweithiau a Dulliau Mesur Perthnasol (nid yw'r rhestrau'n hollgynhwysfawr)** |
|---|---|---|---|
| **Model gofal: Adref o'r Ysbyty** | | | |
| 1. Mae pobl yn mynd adref o'r ysbyty mewn modd mwy amserol ac mae'r cymorth angenrheidiol ar waith pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty. | • Tystiolaeth bod rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni allweddol yn defnyddio asedau a dulliau cydweithredu cymunedol i ategu 'Gartref yn Gyntaf'.<br>• Profiadau cadarnhaol o ran bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol a bod y cymorth y mae arnynt ei angen yn y cartref eisoes ar waith. | • Nifer a chanran y cleifion ag anghenion gofal a chymorth sy'n dychwelyd adref o'r ysbyty gyda chynlluniau rhyddhau boddhaol ar waith.<br>• Nifer a chanran y bobl a gaiff fynediad at y llwybr Rhyddhau i Adfer yna Asesu 0. | • Y chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng: Nodau 1, 2, 3, 4, 5 a 6.<br>• Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc a Gofalwyr Di-dâl – metrigau gofalwyr oedolion a gofalwyr ifanc).<br>• Data gweithgareddau a pherfformiad y GIG (e.e. PROMS/PREMS).<br>• Arolwg Cenedlaethol Blynyddol.<br>• Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br>• Dulliau Mesur Perfformiad Lefel Uchel y Cynllun Dementia (Atodiad 3).<br>• Fframwaith adrodd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. |
| 2. Mae pobl yn deall y broses ryddhau'n well a chânt eu cynnwys i raddau mwy yn y gwaith cynllunio cyn ac ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. | • Tystiolaeth bod gwaith cynllunio a wnaed cyn derbyn pobl i'r ysbyty wedi cael ei ystyried mewn prosesau rhyddhau ac mewn llwybrau Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (pan fo hynny'n briodol).<br>• Profiadau cadarnhaol o ran cynnwys cleifion mewn cynlluniau cyn eu derbyn/ar ôl eu rhyddhau, a hefyd o ran eu cynnwys yn y broses ryddhau.<br>• Cafodd teuluoedd/gofalwyr di-dâl eu cynnwys yn y broses 'cynllunio i ryddhau'. | • Nifer a chanran y bobl (cleifion) yn yr ysbyty a gaiff eu cynnwys gyda'u teuluoedd/gofalwyr di-dâl yn y gwaith o gynllunio ar gyfer eu rhyddhau, a hynny ar yr adeg y cânt eu derbyn i'r ysbyty.<br>• Lleihad yn nifer a chanran y bobl a gaiff eu derbyn i'r ysbyty. | |

| **Canlyniadau Lefel Uchel y Model Gofal** | **Dangosyddion ar gyfer pob Model Gofal**<br>*(Gallant fod yn ansoddol ac yn feintiol, ond gellir disgwyl y byddwn yn canolbwyntio ar ddangosyddion ansoddol ym mhedwerydd pedrant yr Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau)* | **Dulliau Mesur Perfformiad**<br>*(Lefel grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth)*<br>*Yn nhrydydd pedrant y broses adrodd Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, disgwyliwn weld y gwahaniaeth a wnaed i'r grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth: Faint y gwnaethom ei wneud?* | **Fframweithiau a Dulliau Mesur Perthnasol (nid yw'r rhestrau'n hollgynhwysfawr)** |
|---|---|---|---|
| **Model gofal: Atebion seiliedig ar lety** | | | |
| 1. Caiff pobl eu cynnwys i raddau mwy yn y gwaith o gynllunio llety a fydd yn diwallu eu hanghenion. | • Tystiolaeth bod llety diogel ar gael ar draws grwpiau poblogaeth allweddol.<br>• Tystiolaeth bod systemau gofal a chymorth integredig ar waith wrth gynllunio systemau llety.<br>• Profiad o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio/canfod llety sy'n diwallu eu hanghenion. | • Nifer a chanran yr oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth (naill ai ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer y sawl maent yn gofalu amdano) ac sy'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod eu llety yn gweddu i'w hanghenion*. | • Dulliau Mesur Perfformiad Lefel Uchel y Cynllun Dementia (Atodiad 3).<br>• Y Fframwaith Canlyniadau Digartrefedd.<br>• Fframwaith adrodd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.<br>• Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: llety sy'n gweddu i anghenion*. |
| 2. Mae gan bobl fwy o ddewis o ran ble maent yn byw, a chyda phwy. | • Profiad cadarnhaol o ran bod atebion seiliedig ar lety yn canolbwyntio ar unigolion a'u bod yn cynnig dull '*cymorth ar gyfer bywyd da*'. | • Nifer a chanran y bobl sy'n dweud bod eu llety'n addas i'w hanghenion. | |